www.ecorwyddfa.co.uk

£1

RHIF 512
Mai
2023

# ECO'r Wyddfa

## Ffit Cymru, Bethel a Llanrug

Os ydach chi eisiau cael ei ysbrydoli yna gwyliwch S4C am 9.00PM ar nos Fawrth dros yr wythnosau nesaf. Dyma pryd y mae'r gyfres Ffit Cymru yn cael ei darlledu ac mae dwy allan o'r pump Arweinydd, neu'r bobl sy'n cymryd rhan, yn dod o fro'r *Eco*.

Mae Kelly O'Donnell yn byw ym Methel, ac mae Linette Gwilym o Lanrug, a'r ddwy ohonynt eisoes yn wynebau cyfarwydd yn lleol. Bellach mae gweddill Cymru yn cael rhannu eu taith i golli pwysau a gwella eu ffitrwydd.

Mae'r gyfres yn dilyn Kelly, Linette, Andrea, Dylan a Matthew wrth iddynt ddilyn cyngor arbenigwyr ar newid eu deiet a dechrau, neu gynyddu, ymarfer corff. Os ewch chi i wefan y rhaglen - www.ffit.cymru - fe gewch lond gwlad o ryseitiau defnyddiol a chyngor ar ffitrwydd, gan gynnwys amserlen i fynd o'r *couch to 5k*.

Darllenwch ragor o hanes Kelly yn Newyddion Bethel a Seion ar dudalen 6. Cofiwch, felly, 9 o'r gloch nos Fawrth ydi'r amser i nôl panad a setlo o flaen y bocs a chefnogi Kelly a Linette!

FFITCYMRU







### Yn y rhifyn hwn:


- Sefydlu Gweinidog newydd – tud 3
- Gŵyl Fwyd Caernarfon – tud 10
- Chwilair Adar yr Ardd – tud 23
- Twrnament pêl-droed Bethel – tud 26
- Cyfres Rasus Mynydd – tud 27













Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

At sylw darllenwyr Eco'r Wyddfa
'Dwi'n cysylltu fel aelod o bwyllgor Gŵyl Fwyd Caernarfon, sydd bellach yn un o wyliau bwyd mwyaf Cymru. 'Dwi'n siŵr bod nifer go dda o drigolion dalgylch yr Eco yn ymweld â'r ŵyl i fwynhau gwledd o fwyd a diod bob blwyddyn, yn ogystal â'r arlwy adloniannol sydd ar gael.

Dyma ddod ar eu gofyn felly.

Mae'r Ŵyl yn ddibynnol ar wirfoddolwyr. Gwirfoddolwyr yw holl aelodau'r pwyllgor, a gwirfoddolwyr sy'n sicrhau bod diwrnod yr Ŵyl yn mynd rhagddo yn (weddol!) ddi-drafferth. Rydym yn gofyn i bobol roi awr neu ddwy o'u hamser ar ddiwrnod yr Ŵyl i gynnig cyfarwyddiadau i ymwelwyr, i ddosbarthu rhaglenni, ac i gasglu cyfraniadau.

Dylai'r sawl sy'n dymuno rhoi peth o'u hamser gysylltu'n uniongyrchol â ni ar post@gwylfwydcaernarfon.cymru.

Cofion cynnes,
Osian

Llythyr Panel Golygyddol
Gobeithio gawsoch chi i gyd Basg hapus a dedwydd.

Diolch i bawb sydd eisoes wedi talu am yr Eco am y 12 mis nesaf. Diolch hefyd i bawb sydd yn anfon deunydd i'r Eco yn fisol a thrwy gydol y flwyddyn. Daliwch ati!

Hoffai'r Panel Golygyddol atgoffa ein cyfranwyr bod popeth a anfonir atom yn cael ei brawf-ddarllen a'i olygu. Mae gan y Panel Golygyddol yr hawl i gywiro, talfyrru neu addasu cyfraniadau yn ôl y gofyn. Nid oes sicrwydd y caiff pob llun sy'n cefnogi stori/erthygl ei gynnwys chwaith, gan nad oes digon o ofod bob amser ar eu cyfer.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth.
Y Panel Golygyddol

At sylw darllenwyr Eco'r Wyddfa,
Ar 5 Mai 2023 bydd Siân Gwenllian AS yn cynnal cymhorthfa ar y cyd â'r Cyng. Beca Brown yn Llanrug.

Mae cymhorthfa yn gyfle i drigolion lleol gael help llaw neu gyngor ynglŷn â materion lleol sy'n codi.

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n dymuno mynychu'r gymhorthfa gysylltu â'r swyddfa i drefnu o flaen llaw. Gallwch wneud hynny drwy anfon e-bost at sian.gwenllian@senedd.cymru neu drwy ffonio 01286 672076.

Cofion cynnes,
Siân Gwenllian AS

# Ymgynghoriad Strategaeth Iaith

Mae Cyngor Gwynedd eisiau clywed barn trigolion y sir ar strategaeth iaith ddrafft newydd. Mae'r ddogfen newydd hon yn ddilyniant i'r Cynllun Hybu'r Gymraeg sydd wedi bod yn ei lle ers 2018.

Mae cyfle i gynnig sylwadau ar y strategaeth ddrafft drwy lenwi holiadur ar wefan y Cyngor cyn 21 Mai - ewch i'r adran 'Dweud eich dweud'. Bydd Pwyllgor Iaith y Cyngor wedyn yn ystyried y sylwadau a gwneud unrhyw newidiadau, cyn i'r strategaeth derfynol gael ei chyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynlluniau mewn nifer o feysydd polisi a statudol cenedlaethol, ac yn gweithredu cynlluniau ar lefel leol sydd yn cael effaith ar y gymuned a'r Gymraeg neu sydd yn ymwneud mewn rhyw ffordd efo ymdrechion i geisio cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd
- Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy
- Cynlluniau Adfywio Ardal Ni

Er y bydd cyflawni gwaith y cynlluniau yma yn allweddol i wireddu amcanion cyffredinol y strategaeth, mae prif bwyslais y ddogfen ymgynghori yma ar edrych y tu hwnt i'r polisïau a strategaethau yma, a'r gwaith sydd eisoes ar droed, ac adnabod y cyfleoedd newydd sydd yna i fynd y tu hwnt i ofynion darparu gwasanaethau, ac i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Os hoffech fwy o wybodaeth am yr holiadur, neu'r Strategaeth Iaith, gallwch gysylltu ag Uned Iaith Cyngor Gwynedd ar e-bost: iaith@gwynedd.llyw.cymru, neu 01286 679 261

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mehefin | 12 Mai | 26 Mai |
| Gorffennaf | 9 Mehefin | 23 Mehefin |
| Awst a Medi | 14 Gorffennaf | 28 Gorffennaf |



## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Toblerone.** Nid yw'r siocled trionglog yn cael defnyddio llun o'r Matterhorn ar ei gynnyrch bellach am fod rhan o'r gwaith cynhyrchu wedi symud o'r Swistir i Slofacia. Yn ôl cyfraith y Swistir, nid oes hawl defnyddio symbolau cenedlaethol ar unrhyw gynnyrch masnachol os nad yw'n cael ei gynhyrchu'n gyfangwbl o fewn y wlad.
- **Crefydd.** Mae Gwlad Belg wedi derbyn Bwdhaeth fel crefydd swyddogol, a hynny ar gyfer tua 150,000 o'i dilynwyr. Yr unig wlad arall yn Ewrop sy'n rhoi statws swyddogol i'r grefydd yw Awstria.
- **Fferm Wynt.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi caniatâd i sefydlu fferm wynt oddi ar arfordir Penfro. Bydd yn weithredol o fewn tair blynedd ac yn cynhyrchu digon o drydan i gynnal 93,000 o dai.
- **Sychder**. Mae'r sychder difrifol a effeithiodd ar Somalia y llynedd, ac sy'n parhau eleni, wedi hawlio bywydau dros 50,000 o bobl. Mae'r Cenhedloedd Unedig a'r WAO wedi rhybuddio fod yr argyfwng ymhell o fod drosodd.
- **Sment Plastig**. Mae cwmni yn yr Aifft wedi darganfod dull o gasglu dros 5 miliwn o fagiau plastig sy'n llygru Môr y Canoldir, a'u troi'n deils ar gyfer palmantu ardaloedd awyr-agored.
- **Gwlybaniaeth.** Y glawiad misol dros fis Mawrth yng Nghymru oedd y pumed uchaf ers dechrau cofnodi yn 1836.
- **Gwleidyddiaeth.** Humza Yousaf yn cael ei ethol yn arweinydd yr SNP ac yn Brif Weinidog yr Alban – y Mwslim cyntaf erioed i ddal swydd o'r fath yng ngorllewin Ewrop.
- **Tezepelumab.** Yr enw ar gyffur newydd sydd wedi ei gymeradwyo gan y Gwasanaeth Iechyd a fydd o gymorth i gleifion yn dioddef o asthma difrifol ….
- **Cwsg.** ..... Ac o sôn am asthma, mae archwiliad o batrwm cysgu hanner miliwn o bobl dros gyfnod o ddeng mlynedd gan Brifysgol Shandong yn Tsieina wedi dangos fod oedolion rhwng 38 a 73 mlwydd oed yn llai tebygol o ddioddef asthma os yw eu patrwm cysgu'n ddi-dor.
- **Hap-chwarae.** Tri chwmni ym mherchnogaeth William Hill yn cael dirwy o £19.2 miliwn am fethu â gwarchod eu cwsmeriaid. Roedd un cwsmer wedi cael gwario dros £23,000 mewn ugain munud heb unrhyw waharddiad.
- **Wystrys**. Mae 30,000 o wystrys o dde Cymru yn cael eu trosglwyddo i aber afon Hamble yn Swydd Hampshire i geisio adnewyddu'r cynefin morol naturiol yno.
- **Enwau**. Yn nhalaith Arunachal Pradesh yng ngogledd-ddwyrain India (ardal sydd hefyd yn cael ei hawlio gan Tsieina) mae ffrae ddiplomyddol rhwng y ddwy wlad am fod Tsieina wedi dechrau ail-enwi llefydd yno, gan gynnwys pump o fynyddoedd a arferai fod yn rhan o dde Tibet.
- **Drogod**. Mae Awdurdod Diogelu Iechyd y Deyrnas Unedig wedi rhybuddio fod drogod yn cario encephalitis wedi eu cadarnhau yn Swydd Efrog.

## Rhoddion

£5 Anna Sidenotham, High Peak
£10 Monica Owen, Deiniolen
£10 H Evans Munro, Cynan, Llanrug
£10 Nancy Parry, Penygroes
£10 Marjorie Roberts, Ty Newydd, Bethel
£10 Gwerfyl McCarthy, Childwall
£15 Eluned Jones, Mochdre
£20 Er cof am Alun (Mabon), Gorllwyn, 36 Rhydfadog, Deiniolen

£20 Laura Williams, Waunfawr
£20 John Maldwyn Jones, Tanybuarth, Bethel er cof am ei wraig, Mair
£20 Er cof am Eifion Wyn Hughes, Deiniolen gan Sian, Alaw, ac Urien
£20 Gomer Davies, Tregarth
£30 Er cof am Mair Davies, Brynrefail
£40 Dienw, Llanrug
£50 Doris Evans, Gwynfryn, Ffordd Glanffynnon, Llanrug er cof am ei gŵr, Ronnie

## Sefydlu Gweinidog Newydd




Roedd un Sadwrn braf o wanwyn yn ddiwrnod arbennig i aelodau tair o eglwysi dalgylch yr *Eco.* Ers rhai blynyddoedd, bu Capel Cysegr, Bethel, Capel y Rhos, Llanrug a Chapel Caeathro yn un ofalaeth dan weinidogaeth y Parchg Marcus Robinson. Ond erbyn hyn mae'r tair eglwys wedi ymuno â'r eglwys yng nghapel Jerusalem, Bethesda i ffurfio Gofalaeth Seiont Ogwen, ac ers dechrau'r flwyddyn mae'r Ofalaeth newydd dan weinidogaeth y Parchg Nerys Griffiths. Cafodd Nerys ei hordeinio'n weinidog o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru ddiwedd 2022, ac mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng nghapel Jerusalem ddydd Sadwrn, Ebrill 15, cafodd ei sefydlu'n swyddogol yn weinidog i bedair eglwys yr Ofalaeth. Wrth gychwyn ei gwaith yn yr Ofalaeth, mae Nerys yn cychwyn ar yrfa newydd gan mai dyma ei gofalaeth gyntaf, er iddi wasanaethu yng nghapel Jerusalem ers dwy neu dair blynedd fel rhan o'i hyfforddiant a'i pharatoad ar gyfer gwaith y Weinidogaeth.

Roedd y Cyfarfod Sefydlu'n oedfa fendithiol a chymerwyd rhan ynddi gan nifer o gyfeillion a chydweithwyr i Nerys. Dorothy Williams, Llywydd Henaduriaeth Arfon Eglwys Bresbyteraidd Cymru, oedd yn llywyddu'r oedfa ac yn llywio gweithred ffurfiol y Sefydlu. Traddodwyd y 'siars i'r eglwysi' gan y Parchg Bryn Williams, a fagwyd yng Nghapel y Rhos (neu Gapel Pontrhythallt fel yr oedd bryd hynny), ac roedd ei neges yn drawiadol a chofiadwy wrth iddo seilio'r cyfan ar enwau capeli a phentrefi'r Ofalaeth, gan weu cyfeiriadau Beiblaidd a pheth o hanes yr eglwysi i'w gilydd.

Darllenwyd rhan o'r Ysgrythur gan y Parchg Marcus Robinson. Offrymwyd gweddïau gan y Parchg Anna Jane Evans, y Parchg Gwenda Richards, Mrs Ceri Dart, y Parchg Sara Roberts a'r Llywydd; a chyflwynwyd yr emynau gan y Parchg Gwyn Rhydderch, y Parchg John Pritchard, Llinos Morris a'r Parchg Richard O Jones.

Wrth ddiolch i bawb a ddaeth i'r Oedfa, diolchodd y Parchg Nerys Griffiths arbennig i'w theulu am eu cefnogaeth iddi. Yn ogystal â chydnabod cefnogaeth ei gŵr a'i dwy ferch, cyfeiriodd at gefnogaeth ei brawd a'i rhieni. Bu farw ei mam ddechrau Rhagfyr y llynedd, ac roedd y gynulleidfa gyfan yn ymwybodol o'r chwithdod a deimlai'r teulu yng nghanol dathliadau'r Sefydlu, ond yn gwybod hefyd y bydd cymorth ei thad, y Parchg Huw Pritchard, Llangefni yn amlwg yn werthfawr iawn iddi ar gychwyn ei gweinidogaeth newydd.

Wedi'r oedfa, cafwyd cyfle i sgwrsio wrth fwynhau'r lluniaeth a baratowyd gan aelodau Capel Jerusalem yn y festri. Dymunwn yn dda i Nerys ac i eglwysi'r Ofalaeth ar gychwyn y cyfnod newydd hwn.

# DEINIOLEN

**Codi Arian at Achos Da**
Bydd taith '*ride out*' er cof am Hywel Garnedd yn digwydd eto eleni ar 21ain o Fai. Casglwyd dros £4,000 llynedd at achosion da. Dewch i gefnogi eto eleni. Bydd mwy o wybodaeth ar grŵp facebook cymunedol Deiniolen.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Mrs Mona Parry a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli ei brawd Mr Noel Williams.

**Babis Newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Catrin Elen Jones ac Aled Hughes ar enedigaeth Ceian Rhys Hughes. Llongyfarchiadau i Kevin ac Anwen ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Llongyfarchiadau i Ffion a Darren ar enedigaeth Owi Llyr Bingham. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu.

**Diolch**
Hoffem fel teulu y diweddar Alun Lewis (Mabon), Gorllwyn, 36 Rhydfadog, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom yn ystod ein profedigaeth ddiweddar. Diolch i'r canlynol am eu gwasanaeth teimladwy yn yr Eglwys a'r amlosgfa: y Canon Idris Thomas, y Parchedig Dewi Tudur Lewis, y Parchedig Euron Hughes, a'r organyddes Annette Bryn Parri am ei chyfraniad arbennig. Diolch hefyd i Aneurin am ei deyrnged haeddiannol i'w ewythr, ac i Alaw, Anna, Osian, Sion ac Erin am eu teyrnged hwythau yn cofio am yr hwyl a'r chwerthin a gafwyd hefo taid Alun.

Diolch i'r ymgymerwyr W E Pritchard, Stryd Fawr, Llanberis am eu trefniadau trylwyr ac urddasol iawn.

Derbyniwyd yn ddiolchgar iawn £1,600 er cof am Alun sydd wedi cael ei rannu'n gyfartal rhwng Eglwys Crist Llandinorwig a Chronfa Mwynderau Plas Ogwen, Bethesda.

Diolch o galon i bawb.

**Gŵyl Deiniolen a'r Cylch**
Dilynwyd y traddodiad o ddewis brenhines a'r cwrt brenhinol ar gyfer Gŵyl Deiniolen a'r Cylch, 2023.

Llongyfarchiadau i ti Cadi ar lwyddo i fod yn Frenhines ac i ti Llio am lwyddo i fod yn ferch blodau ac yn olaf i ti Sion am lwyddo i gael y swydd o'r Gwas.

**Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur ar gyfer diwrnod y Carnifal - 17eg Mehefin 2023.**








**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau enfawr i Siwan Gwenllian o Glwb Dawns Hudoliaeth am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth dawns hip-hop/stryd/disgo Unigol Bl6 ac iau yn Eisteddfod Dawns Rhanbarth Eryri yng Nghricieth nos Lun 20fed Fawrth.

Roedd safon yn dawnsio gan y cystadleuwyr yn anhygoel! Mae'r safon a thalent y dawnswyr yma yn Eryri yn rhagorol! Da iawn pawb a oedd yn cystadlu. Diolch mawr i Chloe a Iola am hyfforddi Siwan. Da chi'n ymeising!

Pob lwc i ti Siwan yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri! Amdani!




## Helfa Wyau Pasg

Cynhaliwyd helfa wyau Pasg o amgylch y pentra ar yr 2il o Ebrill. Cafodd y plant hwyl garw yn chwilio am yr wyau, a llongyfarchiadau i Ena am guro yr ŵy Pasg mawr. Cafodd y plant gŵn poeth a diod yng nghaffi EB wedi'r holl grwydro, a chafwyd amser gwych gan bawb.

Diolch i Bwyllgor Pentra am drefnu ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r helfa. Diolch hefyd i W Owen Construction am y rhodd o'r holl wyau Pasg.

Chwiliwch allan am fwy o ddigwyddiadau i ddod yn fuan.

Cynhaliwyd hefyd noson cyri a chwis yng nghaffi EB ddiwedd mis Mawrth, a llongyfarchiadau mawr i Nesta, Tony ac Emma am ennill y cwis. Noson o chwerthin a hwyl i godi calon.








# LLANBERIS

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn neu e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*. Diolch yn fawr.

**Diolch**
Ar ran teulu'r diweddar Anne Parry Jones, hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod yr amser anodd yma. Diolch am yr holl alwadau, y cardiau, y blodau a'ch presenoldeb yn y gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn ac, yn arbennig, diolch am y rhoddion tuag at 'Cartref Plas Pen Gwaith' a'r salwch 'Epilepsi'.

**Capel Coch**
Dyma drefn oedfaon Capel Coch am y mis nesaf. Croeso cynnes i'r oedfaon a gynhelir am 10.00AM ar fore Sul.
Ebrill 30: Mr John Roberts, Waunfawr
Mai 7: Y Gweinidog
Mai 14: Y Gweinidog
Mai 21: Y Gweinidog
Mai 28: Y Gweinidog



## Cydnabod Gwasanaeth

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Venue Cymru yn Llandudno yn ddiweddar, cyflwynwyd clasp i Bryn Lloyd Roberts, Llanberis am wasanaeth o dros 30 mlynedd i'r Frigâd Dân yn y pentref. Ymunodd â'r Gwasanaeth Tân yn ddeunaw oed yn 1991. Llongyfarchiadau iddo am ei wasanaeth ac am gael cydnabyddiaeth haeddiannol.



**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10.30AM a 2.00PM ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Clybiau**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00 pm tan 7.30 pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol.

**Clwb Gwnïo**
Cyfarfod yn y Ganolfan ar brynhawn Llun rhwng 2.00PM a 4.00PM. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol.


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus



HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus


# DINORWIG

**Ymddiheuriad a diolch**
Gydag ymddiheuriad i drigolion Dinorwig am nad oedd newyddion wedi ymddangos yn rhifyn diwethaf yr *Eco*. Ni fûm yn dda fy iechyd a threuliais beth amser mewn gwahanol ysbytai. Diolch i bawb am holi amdanaf ac anfon cyfarchion.

**Gwasanaethau**
Dyma drefn y gwasanaethau yn Neiniolen am y mis nesaf. Dalier sylw ar y gwahanol amserau:
30ain Ebrill – Parch R.O.Jones, Gaerwen am 5.00PM.
7fed Mai – Parch John Pritchard, gweinidog am 3.30PM.
14eg Mai – Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni am 3.30PM.
21ain Mai – Parch John Pritchard, gweinidog am 3.30PM.
28ain Mai – Dafydd Iwan, Caeathro am 3.30PM.
2il Gorffennaf – Parch John Pritchard, gweinidog am 3.30PM.

**Marwolaeth**
Ar y 7fed o Chwefror yn Ysbyty Gwynedd bu farw Miss Mair Foulkes, Bryn Hyfryd, Penisarwaun, gynt o'r Fachwen. Yr oedd wedi dathlu ei phenblwydd yn 94 oed fis Ionawr. Fe'i magwyd mewn bwthyn bychan yn rhannau isaf Y Fachwen, a byddai hi a'i thad yn cerdded yr allt serth i'r eglwys yn Ninorwig bob bore Sul cyn dychwelyd am ginio, a'i cherdded eto i wasanaeth y pnawn. Arhosai gyda ni am de, a hebrwng fy nain i wasanaeth yr hwyr – y ddwy yn cychwyn yn rhy gynnar o lawer, ond yn cyfarfod Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo, er mwyn cael sgwrs cyn dechrau'r gwasanaeth.

O Ysgol Brynrefail aeth i Goleg y Santes Fair ym Mangor a chael swydd athrawes ym Manceinion. Wedi nifer o flynyddoedd symudodd yn ôl i Gymru a chael swydd yn Ysgol Maesincla, Caernarfon, ble bu nes ymddeol. Symudodd yn ddiweddarach i Fryn Hyfryd, Penisarwaun a dilyn y gwasanaethau yn Eglwys y Santes Helen.

Cynhaliwyd yr angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor, gyda'r Canon Idris Thomas yng ngofal y gwasanaeth, ac yn cyflwyno teyrnged iddi (un ag yr oedd gan Mair feddwl mawr ohono). Mr Gareth Jones oedd yr organydd. Roedd nifer fechan o gyn-drigolion Dinorwig yn bresennol ynghyd ag aelodau o'i theulu. Claddwyd ei llwch gyda'i rhieni ym mynwent Llandinorwig. Dymuna'r teulu ddiolch i'r Canon Idris Thomas am ei wasanaeth, i Mr Gareth Jones am gyfeilio ac i Gwmni Pritchard, Llanberis am y trefniadau urddasol, teimladwy a gofalus.


ECO'r Wyddfa
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlad**
Ym marwolaeth ddisymwth Dylan 'Pepsi' Williams, 9 Bro Rhos, yn 65 oed, rydym wedi colli un o fechgyn mwyaf poblogaidd y pentref. Un yn ymfalchïo mai 'hogyn o Fethel' ydoedd. Yma ei wreiddiau, yma ei falchder. Un tawel, diymhongar ac o fagwraeth yn seiliedig ar werth yr uned deuluol. Ei rieni, Dafydd a Mona yn un o 'deulu' cefnogol Capel Saron, ac yno bu'r angladd. Y capel yn llawn, a nifer dda yn sefyll tu allan. Yr oedd presenoldeb pentrefwyr, hen hogia Bethel yn dychwelyd a llu o'i gyn-gydweithwyr yn galondid i'r teulu agos.

Wedi gadael Ysgol Brynrefail, dilynodd Dylan ei dad Dafydd i weithio i'r Cyngor Sir. Yno hefyd roedd Maldwyn ei gefnder, a chyda Adran Priffyrdd y Cyngor Sir bu Dylan am sawl blwyddyn. Daethom yn gyfarwydd â gweld ei lori Gownsil tu allan i'r tŷ ym Mhro Rhos yn barod am alwad allan yn oriau'r nos. Yr oedd chwaraeon yn agos iawn at galon Pepsi – anodd yw cyfeirio ato fel Dylan. Yn ei dro fe gynrychiolodd dimau pêl-droed Bethel, Llanrug a Llanberis. Am sawl tymor bu'n aelod o dimau dartiau a pŵl y Bedol. Casglodd dipyn o dlysau dros y blynyddoedd.

Ond, roedd cwmwl ar y gorwel. Yn ystod gorchwyl gwaith cafodd ei daro gan gerbyd, a'r anaf a dderbyniodd yn arwain yn y pen-draw i ymddeoliad cynnar. Bu'n falch o gefnogaeth ei gyfoedion – 'hogia Bethel' – dros y cyfnod anodd yma. Bu Julie a Dylan yn greigiau cefnogol i'w gilydd. Dyma gyfnod o weld Peps a'i bartner hoff Benji'r ci yn cerdded o gwmpas y pentref yn ddyddiol. Os cyfarfod, sgwrs naturiol, holi am hwn a'r llall, yna ymlaen a'r daith 'tan tro nesa'.

Un cof personol gennyf oedd ei hoffter o fynychu'r Nosweithiau Cwis yn y Bedol. Roedd ganddo dipyn o wybodaeth am chwaraeon, a hefyd caneuon a grwpiau pop y cyfnod. Dau destun a frithai'r cwis yn aml. Fel rhan o dîm roedd Pepsi ar ei orau. Rhoi o'i orau, ffyddlon, ddibynadwy. 'Top of the Pops oedd Pepsi', mewn sawl agwedd o fywyd.

Ar yr aelwyd y teimlir y golled fwyaf. Fel pentref rydym yn cydymdeimlo a'i wraig Julie, a'i blant Mari, Sioned, Dylan ac Ian a'i chwaer Medwen a'r teuluoedd estynedig. Cwsg yn dawel.




**Sefydlu**
Ar bnawn Sadwrn, 15fed Ebrill daeth cynrychiolaeth dda o bedair eglwys Gofalaeth Seiont Ogwen i wasanaeth sefydlu'r Parchg Nerys Griffith. Cynhaliwyd yr Oedfa yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda.

**Diolch**
Dymuna Marjorie Roberts, Tŷ Newydd, ddiolch o galon i Myfanwy a Martin am ddiwrnod hapus iawn yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar. Diolch hefyd i gymdogion a ffrindiau am y llu o gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion. Diolch arbennig am y llu Docynnau Siopa a'r blodau hardd. Diolch i chwi gyd.

**Pawb wedi talu**
Diolch i bawb sy'n derbyn yr Eco am eu prydlondeb yn talu eu £10 o daliad blynyddol. Diolch hefyd am ffyddlondeb y dosbarthwyr am y dosbarthu a'r casglu. Bethel yw'r unig bentref ble mae pob cyfrannwr yn derbyn y papur trwy'r drws. Gallwch atgoffa unrhyw un nad yw ar restr y dosbarthwyr ei fod yn bosibl i brynu'r Eco yng Nghaffi Perthyn. Gobeithio y cewch eich plesio gydag arlwy'r flwyddyn ar ddod. Danfonwch eich straeon, cyfarchion ayyb i mi, gan gadw at y 'dyddiad cau' swyddogol a roddir yn yr Eco bob mis.



**Clwb Bro Bethel**
Cynhaliwyd cyfarfod Ebrill yn Festri Cysegr pnawn Mawrth, 4ydd o Ebrill.

Ein gwestai oedd Daryl Jones o Eglwysbach sy'n drefnydd blodau. Dechreuodd ei gyrfa drwy fynd i Goleg Northop I ddysgu ei chrefft. Yna, bu'n gweithio mewn siop flodau yn Llundain lle y cyfarfu â nifer o enwogion o'r byd actio gan gynnwys Sean Connery. Ers 43 o flynyddoedd mae'n rhedeg siop flodau ym Mae Colwyn.

Cyflwynodd Daryl, gyda chymorth ei wŷr Joseff, lawer o syniadau I ni mewn ffordd hynod o hwyliog. Cafwyd gosodiadau wedi eu trefnu mewn fâs, blwch pren, basged a rhai yn bwrpasol ar gyfer y Pasg. Yn ogystal â phrynu blodau, bydd Daryl yn defnyddio planhigion a gwyrdd-ddail sy'n tyfu yn ei gardd I greu trefniadau cyfoes a thraddodiadol.

Diolchwyd I Daryl a Joseff gan Liz Watkin ac roedd pawb o'r farn I ni gael pnawn hynod o dda. Diolch hefyd i Mair Read ac Elen Ellis am baratoi'r baned.

Y mis nesaf, cynhelir y cyfarfod ar yr 2il o Fai. Bydd y Parch. Nerys Griffith a rhai o blant Ysgol Bethel yn dod atom i sôn am Apêl Hadau Gobaith, Cymorth Cristnogol. Bwriad yr apel yw hyrwyddo gwaith cymunedau gwledig yn Nwyrain Affrica sydd yn gorfod addasu eu dulliau amaethu yn sgil newid hinsawdd. Bydd casgliad yn cael ei wneud i gefnogi'r Apêl.

**Bedydd**
Gyda'r Gweinidog, Nerys Griffith yn gweinyddu cynhaliwyd bedydd Elsa Gwyn Lynes, merch Leah a Philip Lynes, Llanrug, yng nghapel y Cysegr. Mae Elsa yn or-wyres i Gwyndaf a Ceri Williams, Stad Tan-y-Cae.

**Pwyso a Mesur**
Bydd y ddau air yma ar feddwl Kelly O'Donnell, 14 Cremlyn am yr wythnosau nesaf. Wedi proses drylwyr fe ddewiswyd Kelly yn un o'r pump 'arweinydd' ar gyfer y gyfres gyfredol o Ffit Cymru. Kelly fydd yr ail ferch o Fethel i ymddangos ar y rhaglen yn dilyn Bronwen, Tŷ'r Ysgol. Diddorol oedd gwrando ar y pump yn rhoi eu rhesymau personol am ymgeisio i gymryd rhan yn y rhaglen. Rwy'n siŵr bod nifer ohonom yn gallu uniaethu – yn enwedig y dynfa ddi-reol sydd gennym at fisgedi a siocled. Hefyd mor llesol yw creu patrwm o gerdded

rheolaidd neu redeg wrth gwrs os yn ddigon heini. Mae Clwb Cerdded wedi ei sefydlu yn y pentref. Gydag arbenigwyr mewn gwahanol agweddau o ffitrwydd a rheolaeth y corff yno yn gefn, rwy'n siŵr bydd nifer ohonom yn glynu wrth eu hargymhellion. I ymateb yn llwyddiannus i'r dasg wedi ei gosod rhaid concro gwrthwynebiad meddyliol yn ogystal â chorfforol. Rhaid cadw golwg ar y llinell derfyn, a chynnal agwedd bositif.

Fe osodir targed i bob un i golli pwysau o un wythnos i'r llall. Fel yr atgoffodd Kelly ni yn y rhaglen gyntaf mae hi yn benderfynol i ymateb yn bositif i'r her, ac rwy'n siŵr bydd elfen gystadleuol Kelly – cyn-gystadleuydd Ras yr Wyddfa fwy nag unwaith – yn gaffaeliad. Cofiwch yr amser felly am eich fix ffitrwydd personol – a chefnogi Kelly – yw nos Fawrth am 9pm. ar S4C. Erbyn mis nesaf gobeithiaf gael adroddiad gan Kelly am ei barn ac ymateb hi i'r gofynion.

**OEDFAON MAI**

**Bethel**: 7fed Mai Parch. Huw Pritchard; 14eg Mai Parch. Nerys Griffith; 21ain Mai Eufryn Davies; 28ain Mai Donald Pritchard.
**Cysegr**: 7fed Mai Arwel Williams; 14eg Mai Parch. Cledwyn Williams; 21ain Mai Oedfa'r Ofalaeth yn y Cysegr; 28ain Mai Parch. Huw Pritchard.

**Gwersyll Glan-llyn**

Ar benwythnos Mehefin 9fed – 11eg bydd criw ohonom yn mynd i Wersyll Glan-llyn, ac mae hen edrych mlaen!

Er mwyn codi arian at y gangen mae dyddiadur wedi'i drefnu ble gallwch ddewis dyddiad am £1. Y wobr fydd Te Prynhawn i ddau, yn rhoddedig gan Gaffi Perthyn. Diolch iddynt a gobeithio bydd cefnogaeth dda i'r apêl.

Mrs Elwyn fydd yng ngofal y sesiwn nesaf pryd byddwn yn cael defnyddio offer ymarfer corff awyr agored yr ysgol. Y dyddiad fydd 21ain Ebrill am 6.30PM (yn ddibynnol ar y tywydd!)

Pe bai hi'n dywydd gwlyb gallwn ei aildrefnu ar gyfer y 5ed o Fai. Edrych mlaen cael criw da at ei gilydd eto.

**O Siambr Sasha**

"Gobeithio fod pawb wedi mwynhau dros gyfnod y Pasg. Bues i'n brysur gyda Thwrnament Pêl-droed clwb Ieuenctid Bethel; cefnogi unigolion ym Methel a'r Felinheli dan wahanol oblygiadau cynghorydd.

Caffi Menter Gymunedol Bethel - Hefyd bûm yn brysur gydag eraill yn cefnogi Caffi Menter Gymunedol Bethel. Fel rydych wedi sylwi mae'n siŵr, mae'r caffi erbyn hyn wedi ei ail-ddodrefnu. Diolch i chwi ardalwyr am gefnogi'r fenter. Braf hefyd oedd cefnogi Angharad yn plannu blodau gwyllt fel rhan o brosiect Llanddeiniolen. A do, yn y prysurdeb cefais gyfle i fwynhau amser gyda'r teulu.

**Holiadur** - Mae holiadur Menter Gymunedol Bethel yn dal ar gael i'w lenwi. Mae'n bwysig i'r boblogaeth leol fynegi eu barn ar unrhyw ddatblygiad posibl i'r caffi a gobeithio siop. Plîs gwnewch yn fawr o'r cyfle. Rydym yn awyddus i enwi'r caffi a chynllunio logo penodol ar ei gyfer. Unrhyw syniadau, rhannwch gyda ni. Gellir llenwi'r holiadur a rhannu unrhyw syniadaeth drwy ymweld â'r caffi. Gwyliwch allan hefyd am yr amseroedd bydd y caffi ar agor - y newyddion gwych yw bod yr oriau agor wedi ymestyn.

**Holiadur arall** - Mae un holiadur pwysig arall yn haeddu eich sylw. Gofynnir i unigolion fynegi barn ar y bwriad i gyfyngu cyflymdra trafnidiaeth yn ein pentrefi i 20mya. I fynegi barn cysylltwch â'r linc ganlynol - htpp/www.gwynedd.llyw.cymru.20mph. Cofiwch gysylltu ar unrhyw fater sy'n ymwneud â dyletswydd cynghorydd.

**Yoga** - Un o'r gweithgareddau ar gynnydd yma ym Methel yw Yoga. Gwyliwch yr hysbysfwrdd am y manylion. Cynhaliwyd grŵp Yoga am bedair sesiwn rhwng Ebrill 3ydd - Ebrill 24ain yn y Neuadd Goffa ar nosweithiau Llun rhwng 7.15PM a 8.30PM.

**Grŵp Ti a Fi Bethel** - Oriau'r cyfarfod yw rhwng 9.15AM a 10.45 9.15AM bob bore Mercher yn y Neuadd Goffa. Pris yw £2 y teulu ac mae panad gwerth chweil ar gael. Diolch i gwmni Gelli Gyffwrdd am groesawu'r grŵp dros y Pasg, Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

Cofiwch os am gysylltu - 07810174160. Tan fis nesaf, gan obeithio i'r tywydd godi ein calonnau."



**Merched y Wawr**

Daeth nifer dda ohonom ar noson ddigon oer i wrando ar Meinir Owen yn sôn am yr hanes a gafodd gan ei nain am long ddrylliad erchyll y Royal Charter ar y creigiau ger Moelfre ym mis Hydref 1859. Bu i'r 'clipper stêm' a oedd ar daith o Awstralia i Lerpwl gael ei dryllio pan ddaethant i ganol gwynt cryf a hwythau bron iawn a chyrraedd pen eu mordaith hir.



Roedd y llong yn cario teithwyr a oedd wedi gwneud eu ffortiwn adeg y 'Gold Rush' yn Awstralia – nifer wedi gwnïo sofrenni aur i'w gwisgoedd. Wrth weld y dinistr galwyd ar ddynion Moelfre i helpu, a daeth 28 o ddynion dewr i geisio achub y teithwyr gan ymladd tonnau hyd at 40 troedfedd o uchder. Roedd Meinir yn perthyn i dri ohonynt, dau yn hen, hen deidiau iddi. Does neb yn siŵr iawn faint o'r teithwyr achubwyd ond tybir ei fod rhwng 19 a 40, ond fe gollwyd llawer mwy. O bosib, yr oedd hyd at 600 ar y fordaith, ond nid oedd rhestr ar gael o'r teithwyr.

Dywedir i Foelfre newid ar ôl y noson honno, gyda nifer wedi ysbeilio'r aur a olchwyd ar hyd y glannau, a 'Phres y Royal Charter' yn eglurhâd pam fod nifer o ardalwyr wedi dod yn gyfoethog dros nos! Roedd papurau Lloegr yn haerllug iawn wrth ddweud mai'r 28 dyn dewr oedd wedi ysbeilio a chamdrin y cyrff, ond mewn llys tystiodd un a gafodd ei achub nad felly y bu. Roedd nain Meinir yn ddirmygus iawn o 'Bres y Royal Charter', ond mae gan Meinir lwy arian, a gafwyd mewn cawell cimychiaid, yn drysor teuluol ac yn atgof o'r tri pherthynas dewr a fentrodd eu bywydau i helpu.

Diolchwyd i Meinir gan Gwyneth Jones ar ran y gangen, a hi hefyd enillodd y raffl. Diolch i Mair Williams, Meira Evans ac Edna Lamona am baratoi'r baned.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn digwydd ar fore Iau, 11eg Mai , pan fyddwn yn mynd ar daith hanes o amgylch pentref Bethel yng nghwmni Gareth Roberts, ac yna cinio yng Nghaffi Perthyn i ddilyn.

Y mae hefyd wahoddiad agored i deuluoedd, cyfeillion a rhai nad ydynt yn aelodau i ymuno hefo ni am drip Pentymor ar daith ar y Fenai ar y llong 'Queen of the Sea'. Y dyddiad yw nos Fercher, 14eg Mehefin am 6.30pm. Pris y tocyn fydd £15. Gwyliwch allan am bosteri o amgylch y pentref.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# ... MWY O BETHEL A SEION





**Adran yr Urdd**
Yn festri Capel Cysegr nos Wener, 31ain o Fawrth, mwynhaodd y plant noson o Yoga dan ofal Mrs Wendy Ostler. Diolch o galon iddi am ddod atom. Yn ôl ei dymuniad, mi wnaeth y gangen gyfrannu at gaffi Perthyn.

**Eisteddfod Sir**
Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mhontio. Bu Efa yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth Unawd Pres a bu'r parti Cerdd Dant yn fuddugol yn ogystal, ac felly'n mynd i lawr i'r Eisteddfod Genedlaethol yn ardal Llanymddyfri.


















# WAUNFAWR

**Brysiwch wella**
Cofion cynnes at bawb sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar, ac yn arbennig y rhai sydd wedi gorfod bod yn yr ysbyty, Gareth Williams, Plas Bodhyfryd yn un ohonynt. Dymuniadau gorau am wellhad buan i chi Gareth. Mae'n rhyfedd peidio dod ar eich traws chi ac Eirlys yn cerdded y llwybrau.

Hefyd mae Sam Woodward, Y Foel, Dôl Erddi wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gobowen. Dymuniadau gorau posib i chditha Sam.

**Croeso i'r Weun!**
Braf yw croesawu cwpl ifanc i'r pentref. Daeth Elen a Wiliam i fyw i'r Dalar Deg yn ystod y mis, a gobeithio yn wir byddwch wrth eich bodd yn byw yma. Un o Lanfaglan yw Elen ac mae'n athrawes yn Sir Conwy, ond tydw i ddim wedi cael cyfle i holi Wiliam am ei hanes eto – cewch wybod tro nesa ella!

Croeso hefyd i Sian Shakespear sydd wedi symud i Pen Gamdda o Fethesda, er mai un o ardal Maesteg yw Sian yn wreiddiol. Gobeithio byddi'n teimlo'n gartrefol a hapus yn ein mysg.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Sion a Laura, Hafod Wen ar enedigaeth mab bach, Arthur.

**Waunfawr Ddoe Heddiw**
Efallai nad yw rhai ohonoch yn gwybod am fodolaeth y dudalen boblogaidd hon ar *facebook*. Mae tudalennau o'r fath yn boblogaidd ar hyd a lled Cymru, ac mae diolch i Yvonne Rowland am sefydlu tudalen Waunfawr. Mae'n gyfle i rannu gwybodaeth am heddiw ac atgofion am ddoe drwy gyfrwng lluniau yn bennaf.

Weithiau bydd cwestiwn yn cael ei ofyn nad oes ateb iddo. Un cwestiwn a ofynnwyd yn ddiweddar oedd – pryd newidiwyd enw'r tŷ Tref Eilian gwreiddiol i Hafod Wen, sef yr hyn y mae'n cael ei alw heddiw. Oes rhywun o'r darllenwyr yn gwybod tybed ?

**Nofio i godi arian at elusen**
Mae Cerys Roberts, Nant y Mynydd yn brysur iawn yn hyfforddi ar hyn o bryd ar gyfer her nofio Diabetes UK. Y bwriad yw nofio 22 milltir, sef yr union bellter ag sydd 'na rhwng Dover a Calais. Bydd Cerys yn nofio'r 22 milltir yn Llyn Padarn neu byllau nofio lleol dros yr wythnosau nesaf.

Mi fuasai Cerys yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad tuag at yr elusen.

Pob lwc i ti Cerys, a gobeithio yn fawr y bydd y tywydd yn cynhesu cyn i ti fentro i Lyn Padarn.

**Diolch**
Hoffai Meira a Ron Turner ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y blodau, cardiau ac anrhegion ar achlysur eu priodas ddiemwnt yn ddiweddar.

# Ysgol Bethel

## Pencampwyr pêl-droed 5 bob ochr Gwynedd

Ar Fawrth y 23ain fe frwydrodd tîm pêl droed 5 bob ochr yr ysgol gan ddod i'r brig mewn twrnamaint sirol. Ymdrechodd pob un aelod o'r sgwad 100% a braf oedd profi llwyddiant yn erbyn Ysgol Llanrug yn y rownd derfynol. Bydd y tîm yn cynrychioli Gwynedd mewn twrnamaint cenedlaethol yn y Drenewydd ym mis Mai. Da iawn hogiau a phob lwc.





**Llwyddiant tîm pêl droed merched yr ysgol**
Bu tîm pêl droed merched yr ysgol yn hynod o gystadleuol yn nhwrnamaint pêl droed Urdd Eryri. Dangosodd y genethod gwaith tîm gwych a dyfalbarhad i'w glodfori wrth fwynhau chwarae yn y twrnamaint.

**Ysgol Greadigol Arweiniol**
Mae'r ysgol wedi bod yn rhan o waith grant 'Ysgol Greadigol Arweiniol. Ers dechrau Ionawr mae blwyddyn 4,5 a 6 wedi gweithio dros gyfnod o ddeg wythnos gyda' cherddor a chyfansoddwraig leol Mrs Manon Llwyd. Mae un o'r dosbarthiadau wedi ysgrifennu anthem i'r ysgol gyda'r dosbarth arall wedi cyfansoddi stori ar gan. Drwy arweiniad celfyddyd Mrs Manon Llwyn, mae pob nodyn a phob gair wedi ei berchnogi gan y disgyblion; diolch mawr iddi am ei gwaith. Braint oedd cael cydweithio gydag enwogion megis Osian Candelas a Huw Garmon yn ystod y prosiect. I orffen cafodd y disgyblion y cyfle i recordio eu gwaith fel cerddorion proffesiynol yn stiwdio Sain. Dipyn o brofiad!



# PENISARWAUN

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu'r diweddar Ann Jones, Ty'n y Gerddi, Waen a hunodd yn dawel yn 94 mlwydd oed, priod, mam, mam yng nghyfraith a nain hoff.

Syfrdanwyd pawb yn y pentref a'r fro o glywed am farwolaeth Dylan Edwin, mab y diweddar Leslie a Nansi a brawd agos ac addfwyn i Anwen. Un a fagwyd ym Meillionydd a mynychodd Ysgol Tan y Coed ac Ysgol Brynrefail ac yna setlo ymysg ei ffrindiau yn Llanrug, gan ddangos ffyddlondeb i dîm pêl-droed Llanrug. Ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu oll.

Collodd preswylwyr Stad Bryn Eglwys un o'u hynafiaid, sef Barbara Brailsford, nyrs o ran galwedigaeth, un dawel a phreifat ei chymeriad ac yn arddwraig o fri. Cydymdeimlir yn ddwys â'i phlant Elaine, David ac Andy, y tri ohonynt yn rhugl yn y Gymraeg ac yn hynod falch o'u magwraeth yn Neiniolen a'r fro ac yn hynod ddiolchgar i'w ffrindiau am eu cyfeillgarwch tuag at eu mam.

**Pob lwc**
Pob dymuniad i bob un ohonoch sy'n sefyll amrywiol arholiadau ar ôl y Pasg.

**Gwellhad**
Da deall fod Myfanwy adref o Ysbyty Walton, Lerpwl ac yn dda iawn ei hysbryd. Anfonir ein cofion hefyd at Tegid a phawb arall sy'n sâl yn y pentref. Da gweld Geraint, 8 Bryn Eglwys wedi gwella yn dda ar ôl cael clun newydd.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Elgan a Mel ar enedigaeth eu efeilliaid bach, Mollie Gwenllian a Jessica Elan. Chwiorydd bach i Alfie a wyresau bach annwyl i Alwyn a Delyth Penygaer, a Wena a Pat Holsten House.

**Cofion**
Cofion annwyl atoch Leslie. Da deall fod Dilys, 7 Llys y Gwynt wedi symud o Ysbyty Bryn Beryl i Blas Pengwaith, Llanberis ac felly'n agosach at ei ffrindiau.

**Eisteddfod Bentref 2023**
Cynhelir yr Eisteddfod, nos Fercher, 12fed Gorffennaf am 6.00PM yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir ymarferion canu a llefaru i blant, nos Fercher 7fed Mehefin am 6.00PM yn y Neuadd Gymuned.

**Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd**
Mae aelodau'r Pwyllgor yn dal i dderbyn amlenni i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol. Cofiwch gellir amgáu unrhyw swm o arian yn eich amlen a bydd hyn yn ein helpu i gyrraedd y targed o £2,000.

**Miri Mai**
Cynhelir pwyllgor, nos Fercher 3ydd Mai i drefnu 'Miri Mai' a gynhelir ar 17eg o Fai. Cyfle i gymdeithasu unwaith yn rhagor.

# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur – Rhan 14

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Rhywogaeth reibus yw'r gath ddomestig, felly mae cathod yn hela i gael bwyd. Yn debyg i'w cyndeidiau gwyllt, mae cathod domestig yn helwyr unigol, arbennig o dda. Tan yn eithaf diweddar, roedd pobl yn cadw cath fel modd i ddifa a chadw plâu dan wahardd yn hytrach nag fel cymdeithion. Mae ganddyn nhw glyw miniog, sy'n llawer gwell na ni'r deu-droediaid. Mi fedran nhw glywed llygoden yn gwichian o dan ddaear neu gocrotsian yn sgrialu tu mewn i'r wal. Mae eu clustiau'n eu galluogi i leoli eu hysglyfaeth trwy sŵn! Efallai na dyna pam dydy Bob ddim yn hoffi'r hwfer.

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori:
Dydw i ddim bob amser yn deall deu-droeidiaid. Maen nhw'n gallu bod yn bethau rhyfedd. Roeddwn i'n cael ryw gyntyn bach ar y soffa ar ôl brecwast y bore 'ma. **Trio** cael cyntyn, achos mi roedd y ddau nôl ag ymlaen fel pendil y peth sy'n tician yn y parlwr!

Am ryw reswm roeddan nhw i fyny'r grisiau ac mi oedd hyhi wedi ypsetio'n lân! Glywis i rwbath am fethu cysgu, sŵn traed bach yn pitran patran uwch ei phen a bod angen 'trap'! Beth bynnag ydy peth felly…

Y peth nesa' welais i oedd hi'n dod lawr yn ôl a thaflu sgwaryn bach metel ar y sinc a chyhoeddi, 'Mae'n rhaid gneud rwbath, i gael gwared arnyn nhw! Dwi'n methu cysgu ac maen nhw'n codi pwys arnai! Os na weithith hyn wn i ddim be wnawn ni.'


Falch bod hi wedi deud *nhw*! Dim ond un ohona i sydd yna. Felly ar hyn o bryd dwi'n saff, dydy hi ddim am gael gwared ohona i, fel wnaeth y deu-droediaid roeddwn i'n rhannu tŷ efo nhw o'r blaen. Ond pwy ydy'r 'nhw' bondigrybwyll yma??

Dwi'n neidio ar ben y silff wrth ymyl y sinc a s'nwyro'r sgwaryn metal. Aha! Dwi'n nabod yr ogla. Llygod! Nid fel fy Ll'god bach fi efo'r ogla da. O na! Creadur bach blewog gwichlyd, lot llai na fi, ond hynod o flasus os ydach chi'n gallu cael gafael ar un efo'ch pawennau. Mmm… diddorol. Dwi'n neidio lawr ac eistedd wrth y bocs du tân a smalio molchi. Dwi'n glustiau i gyd erbyn hyn i glywed a gwylio be sy'n digwydd nesaf.

Mae'r ddeu-droed fach yn mynd a'r sgwaryn bach metel yn ôl i fyny'r llofft, ar ol rhoi lwmpyn o gaws ynddo fo. Dwi'n methu dallt pam mae hi'n bwydo'r pethau bach blewog… o'n i'n meddwl mai trio cael gwared ohonyn nhw oedd y bwriad. Roedd y deu-droed mawr yn mwmial rwbath am fy rhoi fi i fyny'n to! Sgiws mi! Cath lawr grisia ydw i! A beth bynnag, dwi'n gwbod o brofiad mae'n oer mewn rhyw lefydd felna.







Does gen i ddim mwy o flew i'w folchi, felly dwi'n ei heglu hi allan drwy'r drws cefn. Ella fyddai'n saffach yn fan'ma. Mae'r haul allan, y pethau bach pluog yn canu yn y coed a dwi'n grediniol mod i'n gallu ogleuo un o'r petha bach blewog, pedair coes yn y forder. Eistedd. Gwylio. Eistedd. Dipyn o 'yoga'.

Gwylio. Gwrando. Mae angen mynadd i ddal un o'r pethau bach yma, er bod nhw'n fach mae gynnyn nhw synnwyr cyffredin. Maen nhw'n cuddio os gawn nhw ogla rwbath mawr, blewog, sunsur yn eistedd wrth ymyl. Eistedd a gwrando eto.

Aha! Mae 'na rwbath yn symud, dwi'n gallu ei glywed o. Mynadd bia hi. Aros… Mae o ddigon gwirion i ddod allan! Ar ei ôl o… Dwi'n rhedeg fel y gwynt ond mae o'n rhedeg o fy mlaen i. Dwi bron a'i ddal o! Haleliwia! Mae o gen i! Dwi'n gafael yn y corff bach blewog efo fy mhawennau blaen! Dwi bron iawn yn gallu blasu'r cig brau…

Asiffeta! Mae'r deu-droed mawr wedi dod drwy'r drws cefn ac yn gweiddi - Bob! Dwi wedi dychryn ac yn troi i sbïo arno fo ac mae'r creadur bach blewog yn gweld ei gyfle a dianc i'r wal gerrig o fy mlaen i! Does gen i ddim gobaith bellach o gael gafael arno fo!!! I rwbio halen i'r briw mae o wrthi'n fy nghanmol i am fod wedi dal y peth bach blewog! Ond fo wnaeth i mi golli gafael arno fo! Wir yr…

Dwi'n licio byw yn y tŷ yma, efo'r deu-droediaid digri yma, dydw i ddim bob amser yn eu deall nhw a dydw i'm yn meddwl eu bod nhw'n fy neall i ar adega. Ond drwy bob dim, dwi'n hapus a dwi adra."

# Gŵyl Fwyd Caernarfon 13 Mai

Gŵyl Fwyd Caernarfon

Mae hon yn un o uchafbwyntiau cymdeithasol y flwyddyn, felly bydd yna hen edrych ymlaen at grwydro'r Ŵyl eto eleni. Cadwch y dyddiad yn eich dyddiadur felly - dydd Sadwrn, 13eg Mai.

Mae Gŵyl Fwyd Caernarfon yn mynd o nerth i nerth ac eleni fe fydd yna 182 o stondinau, 4 llwyfan perfformio i fandiau, corau ac artistiaid, bariau diod, lloc anifeiliaid, cestyll bownsio a gweithgareddau i blant, a llawer mwy!

Un peth sy'n sicr, mi fydd hi'n brysur yno ac mi fydd y meysydd parcio'n llenwi'n gynnar. Beth am wneud y gorau o'r gwasanaethau bws felly er mwyn hwyluso'ch taith i Gaernarfon? Mae amserlenni bysiau i'w gweld ar dudalen gartref gwefan Cyngor Gwynedd - gwynedd.llyw.cymru

Pan oedd yr Eco yn mynd i'r wasg doedd rhestr y stondinwyr na'r map yn dangos y lleoliadau heb eu cyhoeddi, ond i weld yr wybodaeth ddiweddaraf ewch i wefan yr Ŵyl ar gwylfwydcaernarfon.cymru, neu dilynwch eu tudalennau ar Facebook, Instagram neu Twitter.

# CAETHRO

**Capel**
Ar y 7fed o Fai bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 2.00PM.

Ar yr 21ain o Fai, bydd Gwasanaeth Undebol yng Nghapel Bethel i gychwyn am 10:00am. Gweinyddir y Cymun yn ystod y Gwasanaeth hwn. Ar yr un dyddiad, bydd Gwasanaeth yng Nghanolfan y Capel, Caeathro dan arweiniad y Parchedig Iwan Llywelyn, i gychwyn am 2.00PM.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Jac Roscoe (Perthi, Rhos Bach) ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw ddechrau mis Ebrill. Bu Jac hefyd yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth golff arbennig yn Harlech yn ddiweddar – da iawn Jac.

Llongyfarchiadau i Llion a Rhiannon a'r teulu ar enedigaeth Miall Ceiriog fis Mawrth.

Llongyfarchiadau i Alwyn a Nia Jones (Y Dderwen, Rhos Bach) ar ddathlu eu priodas arian ar y 15fed o Ebrill – mwynhewch y dathlu.



**Llongyfarchiadau mawr i Tudur a Menna Trenholme (14 Erw Wen) ar ddathlu eu priodas yn ddiweddar – pob dymuniad da i chi a'r teulu.**

**Clwb Garddio**
*Adroddiad cyfarfod mis Mawrth.*
Daeth Suzie Kraike o Fferm Henbont, Clynnog Fawr atom.

Mae'r perchnogion Matt a Jenny Swarbrick yn tyfu llysiau a magu anifeiliaid ar gyfer cig ac wyau ar raddfa atgynhyrchiol fach. Defnyddir y dull dim palu i drin y tir. Mae'r cynnyrch yn cael ei werthu i ymwelwyr a thrigolion y gymuned. Rhoddir bocsys o lysiau yn wythnosol i Fanc Bwyd, Penygroes.

Rhoddodd Suzie gyngor i ni ar dyfu llysiau a phwysleisiodd y pwysigrwydd o dyfu llysiau tymhorol.

Enillydd y gystadleuaeth Tusw o Flodau Gwanwyn oedd Wendy Morgan.

*Adroddiad cyfarfod mis Ebrill*
Roedd cyfarfod mis Ebrill yng ngofal un o'n haelodau - Sarah Edgar. Testun ei sgwrs oedd yr heriau a'r pleser o gynnal gardd ar lan afon.

Soniodd Sarah fod ei rhieni yn arddwyr brwd a'i thad oedd yn gynhyrchydd rhaglenni teledu wedi gweithio ar raglen Gardeners World. Ni chymrodd Sarah lawer o ddiddordeb mewn garddio nes iddi hi a'i gŵr brynu tŷ.

Mae ei chartref sy'n hen felin ar lannau'r Afon Seiont. Mae'n adeilad hefyd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes crochendy a fferm brithyll.

Mae Sarah a'i gŵr wedi datblygu'r ardd ac wedi ei addasu fel ei bod yn gallu gwrthsefyll bod dan ddŵr pan mae'r Afon Seiont yn gorlifo.

Defnyddir gwelyau codi ar gyfer plannu llysiau er mwyn sicrhau nad yw'r pridd yn cael ei olchi i ffwrdd.

Weithiau daw bonion coed lawr yr afon ac maent yn cael eu gosod fel cerfluniau o amgylch yr ardd. Maent wedi plannu coed helyg i gryfhau glan yr afon ac mae hwn yn cael ei blygu i greu gwrych.

Rhoddodd enghreifftiau o ba blanhigion sy'n tyfu mewn pridd gwlyb.

Diolchwyd i Sarah am sgwrs hynod o ddifyr gan Rhiannon Owen, Cadeirydd.


# CWM Y GLO

**Diwrnod casglu sbwriel Cwm y Glo**
Dyddiad casglu sbwriel mis Mai fydd Sadwrn 20fed Mai, gyda phawb yn ymgynnull ar waelod Allt Goch am 9.30AM.

Bydd offer a chyfarpar yn cael ei rannu ar y diwrnod. Edrychwn ymlaen at eich gweld.








ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com






# Ysgol Waunfawr

Tymor prysur arall a aeth heibio a chafwyd eira, rhew, Eisteddfodau a phriodas i'n diddanu.

Bu'r plant yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd eleni. Cafodd Twm Roberts 1af yn y cylch am lefaru a Lara 2il ar yr Unawd Werin. Daeth y partion canu a'r parti llefaru yn ail yn y Cylch a'r cyflwyniad theatrig yn ail yn y Rhanbarth.

Bu i ni ddathlu'r llwyddiant gyda chyngerdd mawreddog yn y Ganolfan a chroesawyd Elidyr Glyn a Miri Sion atom fel cyn-ddisgyblion. Diolch i bawb am gefnogi ac i'r Cyfeillion am drefnu raffl.

**Diwrnod Trwynau Coch**
Trefnodd y Cyngor Ysgol gystadleuaeth creu trwyn ar gyfer yr achlysur a chasglwyd dros £100 ar gyfer yr elusen.







**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau i'r tîm nofio am ennill y Gala Nofio i ysgolion llai na 70 yn yr Adran Iau. Pawb wedi nofio yn ardderchog a chynrychioli'r ysgol yn wych!

**Pêl-droed yr Urdd**
Bu i'r tîm genethod gystadlu yn frwd mewn twrnament yn ddiweddar ar gaeau Treborth. Daliwch ati genod.

**Bad Achub Caergybi**
Bu i flwyddyn 5 deithio i Gaergybi yn ddiweddar i ddysgu mwy am y bad achub. Cawsant ddiwrnod i'w gofio a chyfle i fynd i'r parc hefyd. Diolch i Mr Francis am roi ei amser.

**Sesiynau Beicio Antur Waunfawr**
Fel rhan o ymgyrch genedlaethol i wella sgiliau beicio plant Cymru, cafodd Blwyddyn 3 gyfres o weithdai beicio gan Jac o Antur Waunfawr. Diolch yn fawr am y cyfle.

**Diwrnod Y Llyfr 2023**
Dyma'r Dosbarth Derbyn wedi gwisgo i fyny i ddathlu Diwrnod Y Llyfr eleni. Ymdrech ardderchog gan bawb.

**Gymnasteg**
Mae bachgen Blwyddyn 6 wedi cynrychioli'r ysgol ac Eryri mewn cystadleuaeth gymnasteg genedlaethol yn ddiweddar. Braf yw gweld y plant yn llwyddo ac yn cael cydnabyddiaeth am weithio yn galed.







**Priodas**
Bu priodas fawr yn Nosbarth Moel Eilio er mwyn dathlu cyfeillgarwch. Diolch yn fawr i Anna Jane am gael defnyddio'r capel ac am wasanaethu. Diolch hefyd i Heledd a Helen am dynnu lluniau a chreu fideo arbennig o'r achlysur. Bu i Delyth greu teisen briodas hynod o flasus a phawb wedi mwynhau cael te parti yn y festri.

Diwrnod bythgofiadwy i'r plant wedi cyfnod o baratoi. Diolch i bawb am gefnogi.
















# Cornel Ddarllen

**Rhestr o lyfrau Cymraeg a Chymreig a werthodd orau yn siop Palas Print, Caernarfon yn ystod mis Mawrth, ac mae 10 uchaf mis yma yn adlewyrchiad o'r digwyddiadau 'da ni wedi bod yn rhan ohonynt.**

1. Arlwy'r Sêr, Angharad Tomos – nofel sy'n olrhain hanes bywydau R. Silyn Roberts a'i wraig, Mary Silyn a chyfraniad y ddau, ac yn arbennig Mary i faes addysg gweithwyr.




2. The Turning Tide, A Biography of the Irish Sea, Jon Gower – hanes y Môr Celtaidd a'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon mewn cyfrol hardd a difyr.





3. 'Anwyl Fam', Pererindod Drwy'r Rhyfel Mawr, Ifor ap Glyn – taith bywyd dyn ifanc o Geredigion i faes y gad yn Mamtez drwy ei lythyron adre i'w fam, a phererindod yr awdur a ddilynodd yr un daith.




4. Cwlwm, Ffion Enlli – nofel am ferch ifanc o Lyn sy'n byw yn Llundain.

5. Llyfr y Flwyddyn, Mari Emlyn – nofel ddifyr, ddigri, grafog am ŵr a gwraig, uchelgais a siom sy'n llawn troadau annisgwyl.

5. Cymru Fydd, Wiliam Owen Roberts – nofel wedi'i gosod yng Nghymru'r dyfodol.





6. Birdsplaining, Jasmine Donahaye – cyfres o ysgrifau am natur, ffeministiaeth, Cymru a llawer iawn mwy!

7. Sarn Helen, Tom Bullough – taith drwy Gymru gan edrych ar y gorffennol, presennol a'r dyfodol.

8. Pigeon, Alys Conran – nofel gyntaf arbennig, gynhyrchwyd gan Theatr Genedlaethol yn ddiweddar ar draws Cymru.

9. Shwd Ma'i yr Hen Ffrind, Huw Chiswell – hunangofiant y canwr a'r cyfansoddwr.




10. Powell, Manon Steffan Ros – nofel ddiweddaraf yr awdur i bobl ifanc, ond sy'n addas i bob darllenydd sy'n mwynhau nofel dda.

**Pen-blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Valmai Owen, Rhos Elan fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar y 3ydd o Fai. Mwynhewch y dathlu Valmai gyda Gwawr, eich teulu a'ch ffrindiau.

Pen-blwydd hapus arbennig a chyfarchion dwbl i Meryl a Frank Green, Annedd Wen. Roedd Meryl yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar Ebrill y 14eg a Frank yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed wythnos ynghynt. Cofion cynhesaf atynt gan eu ffrindiau oll.

**Gwellhad buan**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Enid Williams, 15 Rhos Rhug sydd wedi cael codwm yn ei chartref ac wedi torri ei chlun. Mae ar hyn o bryd yn cael gofal yn yr ysbyty. Gwellhad buan i chi Enid.

**Capel y Rhos**
Cawsom oedfa arbennig fore Sul y Pasg dan arweiniad ein gweinidog y Parch. Nerys Anne Griffiths. Daeth aelodau'r pedair eglwys sydd yng ngofalaeth Seiont Ogwen – Jeriwsalem Bethesda, Cysegr Bethel, Capel Caeathro ynghyd i Gapel y Rhos. Cawsom bregeth ar werth arbennig Cwpan y Cymun a'i rinweddau ac arweiniodd hyn ni at Gymun Undebol. Yn dilyn y gwasanaeth cafodd pawb gyfle i sgwrsio dros baned. Braf oedd cael croesawu Gwenllian a Lois, merched Nerys i'r oedfa.

**Oedfaon mis Mai**
7fed Mai – Y gweinidog Y Parch. Nerys Griffiths
14eg Mai - Gwasanaeth i'w drefnu
21ain Mai – Undebol yng Nghapel Cysegr, Bethel
28ain Mai – Y gweinidog Y Parch. Nerys Griffiths



**Hafan Elan**
Cawsom fis arall reit brysur yn Hafan Elan. Yn dilyn bore coffi a bingo un bore Mercher, fe ddaeth Samantha Williams, arweinydd Cylch Ti a Fi yn Llanrug atom.

Yn y llun, mae Beryl Ellis yn cyflwyno siec o £203 i'r cylch. Roedd hyn yn dilyn bore coffi arbennig a gynhaliwyd yn y Ganolfan i godi arian. Rhannwyd £406 rhwng y Cylch a Chymdeithas Marie Curie.

Yn y llun hefyd, o'r chwith i'r dde mae aelodau o Bwyllgor gweithgar Hafan Elan - Andrea Pugh, Cynthia Owen, Arnold Roberts ac Iris Rees Jones.

I ddathlu'r Pasg cawsom ginio blasus o bysgodyn a sglodion ar ôl y bingo. Unwaith eto fe ddaeth Andrea a hanes sefydlu'r Pasg cyntaf i ni - sef gŵyl bwysicaf y calendr Cristnogol. Aeth ymlaen i ddweud hanes helfa'r wyau Pasg a'r arferiad o glapio am wyau - yn arbennig felly yn Sir Fôn.

**Profedigaeth**
Yn sydyn yn ei chartref, Ogwen, Ffordd Llanberis, bu farw Alison Evans, merch annwyl Beryl a'r diweddar Aled Hughes. Mam arbennig Cara, Iwan a Cai a nain werthfawr Bailey a Siôn, a chwaer i Andrew a Meriel. Cymar hoff Andy a ffrind ffyddlon i Gary. Rydym yn meddwl am y teulu oll yn eu colled drist.

Daeth y newyddion trist i law am farwolaeth Dylan Edwin Jones, yn wreiddiol o Benisarwaun ond a oedd wedi ymgartrefu yma yn y pentref ers rhai blynyddoedd. Colled enfawr i'w deulu a'i ffrindiau oll. Mae'r teulu yn ein meddyliau yn y cyfnod anodd yma ac estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf.

Rydym yn cydymdeimlo â Miss Llinos Davies, Argraig, sydd wedi colli ei brawd yng nghyfraith, Mr Aled Jones.

**Diolch**
Dymuna Carys ac Eurwyn, Ffordd Bryngwyn, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd Carys fis Chwefror.


**Cangen Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch**
Estynnir croeso cynnes iawn i bawb i'r Sefydliad Coffa nos Fercher, 17eg o Fai am 7.30pm ble ceir sgwrs yng nghwmni Catrin Wager.

**Menter newydd Salon Trin Gwallt a Harddwch Elaine's**
Gyda'r salon yn nesu at ei wythfed degawd mewn busnes, mae'n wir i ddweud fod y byd trin gwallt wedi esblygu cryn dipyn dros y blynyddoedd. Fel busnes teuluol o dair cenhedlaeth, mae'r tîm sydd â gwreiddiau cadarn wedi buddsoddi mewn hyfforddiant er mwyn sicrhau parhad y salon.

Mae pobl sydd â gwallt cyrliog wedi bod yn mynd i'r salon i dorri ac i steilio eu gwalltiau ers blynyddoedd, ond roedd gan y tîm awch i dderbyn mwy o hyfforddiant arbenigol ac ymestyn eu gwasanaeth. Ar ôl cysylltu gyda brenin y cyrls yng Nghymru, Richard James o gwmni 'Cyrl Cymru,' mae'n wir i ddweud fod y cymwysterau a'r hyfforddiant pellach wedi helpu i drawsnewid bywydau pobl â gwallt cyrliog dros Ogledd Cymru. Fel aelodau o'r fenter newydd yn y salon, mae Carol, Vicki a Donna wedi cymhwyso gyda 'Cyrl Cymru' ac yn barod iawn eu gwasanaeth.

Mae'r broses a'r gwasanaeth a gynigir yn unigryw. Mae'n cynnwys nid yn unig torri a steilio, ond hefyd yn rhoi gwybodaeth ar sut i ofalu am y gwallt fel bod y cyrls yn edrych eu gorau bob amser. Mae cryn dipyn o alw wedi bod yn y salon hyd yma, a'r fenter newydd yn profi'n boblogaidd ymhlith cwsmeriaid. Mae'r tîm yn frwdfrydig i barhau i ymestyn eu sgiliau a chynnig y gwasanaeth



# Dydd Gŵyl Dewi





Nia a Donna



Noson Colur

Dyma lun o lawer o'r aelodau'n mwynhau'r wledd (gweler rhifyn mis Mawrth).

Gwestai'r noson oedd dwy o'r pentref, sef Nia Gwawr a Donna - y ddwy'n athrawesau yn Ysgol Gynradd Bethel. Er mwyn cael seibiant o waith caled addysgu ac mae gan y ddwy ddiddordeb a chwilfrydedd ar sut i ofalu am y croen gyda chwmni 'Tropic' - cynnyrch gyda phwrpas i helpu byd iach a gwyrdd. Cychwynnwyd 'Tropic' gan Susie Ma, gan arbrofi gyda'i Nain, oedd yn fferyllydd, ac yna ei magwraeth yn Cairns, Gogledd Queensland, lle tyfir planhigion *aloe vera* a ffrwythau a choed egsotig o'i chwmpas a dyna pam mae'r enw 'Tropic' ar y cwmni. Wedi symud i astudio'n Llundain dechreuodd Susie werthu ei chynnyrch ym Marchnad Greenwich, a hynny mewn potiau jam. Ymddangosodd Susie ar raglen yr Arglwydd Alan Sugar, *'The Apprentice'* yn 2011 ac roedd yntau â diddordeb yn ei gwaith a llwyddodd i symud o gegin ei mam i Bencadlys 'Tropic'. Bellach mae ganddi dros 2,000 o lysgenhadon gyda'i chynhwysion yn cael eu hysbysebu yn *'The Sunday Times'* fel un o ffefrynnau gofal croen. Mae cynnyrch ar gyfer corff a chroen, gwallt, gofal haul a cholur o bob math. Fe fwynhaodd pawb gyflwyniad difyr Nia a Donna ynghyd a'r cyfle i arbrofi a phrynu peth o'r cynnyrch.

Diolchwyd i'r ddwy gan Phyllis, Ein llywydd Anrhydeddus. Diolchwyd i Jean, Rhian ac Ann Thomas am y baned ac i Olwen a Linda am ofalu am y Raffl.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar 9fed Mai, gyda chyfle i brynu planhigion 'Menter Fachwen'.

gorau. Mae apwyntiad yn medru cymryd hyd at ddwy awr, felly'r cyngor ydy i ffonio i drefnu ymlaen llaw. Mae modd cael sgwrs anffurfiol hefyd cyn mynd ymlaen gydag apwyntiad. Pob lwc i'r tîm gyda'r fenter.

**Merched y Wawr, Llanrug**
Ar nos Fawrth, 11eg Ebrill estynnwyd croeso cynnes i nifer o aelodau a ddaeth ynghyd ar noson hynod o wyntog, gan ein Llywydd, Mair Huws. Cychwynnwyd gyda chân y Mudiad, gyda Susan yn cyfeilio. Anfonir ein cofion at Mair Wynn Hughes wedi triniaeth i'w llygaid yn ddiweddar a chydymdeimlwyd â Rhian Thomas yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd. Anfonwyd cerdyn pen-blwydd arbennig i Meryl Green yn 70 mlwydd oed gyda chofion annwyl ati.

**Materion rhanbarth Merched y Wawr**
Cynhaliwyd 'Bowlio Deg' yn Glasfryn ar 28ain Ebrill, gyda diolch i Ann Lloyd, Pat, Meirwen, Yvonne, Jennifer ac Amanda am gynrychioli'r gangen.

Cynhelir Noson Gelf a Chrefft ym Methel yng nghwmni Debra Drake ar ddydd Sadwrn, 13eg Mai a bydd 7 aelod o'r gangen yn edrych ymlaen at fynd i Neuadd Aberffraw yng Ngŵyl y Pum Rhanbarth. Mae Cangen Merched y Wawr, Llanrug wedi casglu dros £850 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ac wedi trosglwyddo'r arian i Mary Roberts, cydlynydd Pwyllgor Apêl, Ardal Llanrug. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Mary.

Bwriedir cynnal Côr Hwyliog, dan ofal Nia Elain - côr i ganu caneuon ysgafn/gwerin ar lwyfan y Maes, dydd Mercher 9fed Awst am 12 o'r gloch. Diolchwyd i Ann Lloyd, Bethanne a Jean, sydd yn cynrychioli'r Gangen ar gyfer paratoi'r Babell - Thema 'Llwybrau'.

**Clwb Côr Clychau'r Grug**
Cyfarfu'r genod ar bnawn Iau, 20fed Ebrill am ginio gwerth chweil yng Nghlwb Golff, Caernarfon, gyda phawb yn anfon eu cofion at Glenys a Siencyn, gan ddymuno dymuniadau gorau iddynt ym mhriodas Dewi, eu mab, ym mis Mai.

**Diwrnod Casglu sbwriel Llanrug**
Dyddiad casglu sbwriel mis Mai fydd Sadwrn 20fed Mai, gyda phawb yn ymgynnull yn y Sefydliad Coffa am 9.30AM.

Bydd offer a chyfarpar yn cael ei rannu ar y diwrnod. Edrychwn ymlaen at eich gweld.

## GwyrddNi

Yn dilyn pedwar cynulliad cymunedol a Rhaglen Addysg, mae Dyffryn Peris wedi cwblhau eu Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol!

Dyma fo, ewch am sbec: https://bit.ly/CynllunGweithredu DyffrynPeris

Mae croeso i unrhyw un o'r ardal ymuno â ni i wireddu'r cynllun hwn. Os oes ganddoch chi unrhyw ddiddordeb, cysylltwch â Lowri heddiw ar lowri@deg.cymru

**Digwyddiadau:**
Dyma restr o ddigwyddiadau o fis Mai ymlaen:

**Caffi GwyrddNi Iaith - Gymraeg** - Bore Mawrth Cyntaf pob mis rhwng 10.00AM a 12.00PM yng Nghaffi Caban, Brynrefail

**Caffi GwyrddNi - Dwyieithog** - Trydydd bore Mawrth pob mis rhwng 10.00AM a 12.00PM yng Nghaffi Caban, Brynrefail

**Caffi GwyrddNi - ar-lein** - Trydedd Nos Fercher y mis 6.00PM tan 7.30PM

**Cynulliad Dŵr a Thir Dyffryn Peris**
Cyfle i glywed gan a thrafod gyda mentrau lu ar hyd y Dyffryn sydd yn addysgu, gwarchod a hybu bioamrywiaeth.
Ysgol Brynrefail - 10fed o Fehefin - 10.00AM tan 1.00PM

**Caffi Trwsio** - Neuadd Goffa Llanrug 17eg o Fehefin rhwng 10.00AM ac 1.00PM



www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

# Pryd adeiladwyd Capel Seion?




Yn rhifyn Mawrth gofynnais am unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r capel Wesleaidd a gafodd ei adeiladu ar *'boon land'* yn Seion. Rwy'n ddiolchgar i'r Parchg Euron Hughes, Llanuwchllyn a Gwyn Hefin Jones, Brynrefail am ymateb. Yn anffodus, doedd y cofnodion gan Euron ddim yn sôn am gychwyn yr achos. Ym meddiant Gwyn Hefin roedd cyfrolau o *'Hanes Wesleyaeth Gymreig'* gan Dr Hugh Jones, a gyhoeddwyd yn 1912, a bu'n rhaid dibynnu ar yr hanes yn y drydedd gyfrol i ddod i ryw fath o benderfyniad ar ddyddiad adeiladu'r capel. Mae'n ymddangos hefyd mai fel *'Sî on'* yr adnabyddid y capel gyntaf.

Gwraig o'r enw Mary Owen, gwraig Thomas Owen, Tyddyn Morgan fu'n bennaf gyfrifol am ddechreuad pregethu yn yr ardal. Roedd yn enedigol o Bron y Fedw Uchaf, Betws Garmon ac wedi dod dan ddylanwad Morafiaid Drws y Coed yn gynnar yn ei bywyd. Yn 1803 aeth Thomas a Mary Owen i Fangor i wrando pregeth, a phenderfynodd Mary yr hoffai wahodd pregethwr i'w chartref i draddodi. Nid oedd ei gŵr mor awyddus rhag ofn i'r meistr tir (teulu'r Faenol) ddod i wybod. Deallodd Mary fod pregethu yn Llanrug, a byddai'n mynd yno, nes o'r diwedd ofyn i un o'r pregethwyr gynnal oedfa yn ei chartref. Cafwyd pregeth – y gyntaf gan y Wesleaid yn Llanddeiniolen – ac erbyn y Pasg, 1804 roedd 'cymdeithas' Wesleaidd wedi ei sefydlu yn yr ardal. Erbyn tua 1807 symudwyd y cyfarfodydd i'r Fachell; o bosib oherwydd ei fod yn fwy canolog i'r ardal, ac yn y blynyddoedd a ddilynodd dechreuwyd sôn am godi capel.

Credid mai yn 1818 yr adeiladwyd y capel cyntaf, a dyna yw'r dyddiad sy'n cael ei ddangos uwchben drws yr hen festri yn Seion hyd heddiw. Ond mae'n ymddangos ei fod yn anghywir. Cyhoeddwyd llythyr gan y Parchg R. Humphreys yng nghylchgrawn *'Yr Eurgrawn'* fis Mehefin 1812 sy'n adrodd fel a ganlyn: *"Nyni a gawsom rodd arall gan Dduw, sef capel newydd ym Mhlwyf Llanddeiniolen, lle yr oedd un wedi ei ddechrau ers mwy na thair blynedd; ond eleni a orffenwyd…".* Roedd adeiladu'r capel wedi cychwyn felly tua 1809, ond na chafodd ei gwblhau hyd 1812.

Pam felly fod 1818 wedi ei gofnodi fel dyddiad adeiladu'r capel? Adnewyddu'r capel bach cyntaf a gymerodd dair blynedd i'w godi a wnaethpwyd yn 1818, a'i agor yn swyddogol fis Tachwedd yr un flwyddyn. Yr ymddiriedolwyr cyntaf oedd Robert Jones, Erw Fforch, Griffith Roberts, Tyddyn y Felin, William Morris, Tan y Dderwen a Hugh Williams, Cae Corniog. Diddorol nodi nad oedd dim un ohonynt yn byw yn ardal Seion. Ond gall egluro pam y symudwyd y pregethu o Dyddyn Morgan i'r Fachell yn y blynyddoedd cynnar, gan y byddai'n llawer mwy canolog i'r pedwar cyfeiriad uchod.

Tybed pwy oedd yr aelodau cynnar yn Nhyddyn Morgan? Pump yn unig oedd yn yr oedfa gyntaf: Thomas a Mary Owen, Tyddyn Morgan, *"gwr y dafarn, y mab a'r ferch (gwraig y telynor)".* Mae Owen Thomas, mab Tyddyn Morgan, hefyd yn enwi dau arall sef Hugh Roberts, Waen a Hannah Jones, Ynys'ceuryn. Mae'n dweud fod yr Hugh Roberts hwn wedi bod gyda'i rieni yn gwrando pregeth ym Mangor yn 1803, a'i fod yn ŵyr i Ellis y Cowper, y bardd o Lanrwst. Mae'n bosib mai'r Gors Bach yw'r dafarn y cyfeirir ati, ond pwy oedd y tafarnwr? Mae'n ymddangos mai William Jones, clochydd Llanddeiniolen oedd hwn, a'i ferch Elinor wedi priodi gyda'r telynor. Gwyddom mai'r telynor oedd Richard Thomas, Llys y Gwynt, a aned tua 1763 ac a gladdwyd ym mynwent Llanddeiniolen fis Tachwedd 1828. William Jones, y clochydd, oedd blaenor cyntaf Capel Seion; ac yr oedd Erasmus, ŵyr iddo (mab Richard ac Elinor Thomas) yn arwain y gân ac yn chwarae'r bâs-fiol yn y capel cyn i'r harmoniwm gael ei lle. Bu teulu Llys y Gwynt yn amlwg yn hanes y capel wedi hynny.

Helaethwyd y capel yn 1843 a'i adnewyddu yn 1870. Adeiladwyd y festri yn 1910. Ond er y disgrifiad pur fanwl o sut y dechreuodd yr achos Wesleaidd yn yr ardal, mae amwysedd ynglŷn â dyddiad adeiladu'r capel, a does dim sôn gan bwy nac ar ba delerau y cafwyd caniatâd i godi ar *'boon land'*. Erys hynny'n ddirgelwch.

**Milwr coll**

Mae nifer o drigolion y fro wedi bod yn chwilio hanes perthnasau a hynafiaid a gollwyd ar faes y gad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac y mae eu henwau wedi eu cofnodi mewn neuaddau coffa, capeli a chofebau led-led y wlad. Ond nid pawb mae'n ymddangos.

Ymunodd John J. Hughes, Hafod Owen, Ceunant â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn 1914. Mae'n bosib mai ymuno wnaeth yn dilyn ymweliad John Williams, Brynsiencyn â Llanberis ym mis Medi'r flwyddyn honno. Ar y 4ydd o Awst y cyhoeddodd Asquith fod Prydain yn mynd i ryfel yn erbyn yr Almaen, ac o fewn deng niwrnod roedd 100,000 o ddynion ifanc wedi cofrestru o'u gwirfodd i ymladd. Fis yn ddiweddarach, roedd John J. Hughes yn ymateb i alwad recriwtio John Williams, Brynsiencyn yn Llanberis.

O fewn blwyddyn, cafodd ei drosglwyddo i'r Machine Gun Corps, y 35ain Bataliwn, ac arhosodd gyda nhw nes cafodd ei ladd ar faes y gad yn Ffrainc ar y 24ain o Ebrill 1918. Fe'i claddwyd ym Mynwent Filitaraidd Varennes.

Gyda gwybodaeth mor bendant, gellid disgwyl y byddai ei enw wedi ei gofnodi gyda bechgyn ifanc eraill y fro ar y dabled goffa sydd wedi ei lleoli yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug. Ond nid felly. A oedd yn bosib i'w enw fod ar y gofeb yn Llanberis, gan mai yno yr ymunodd â'r fyddin? Unwaith eto, does dim sôn amdano.

Ond o chwilio'r Cofebion Rhyfel ar y wê, daw'r canlynol o dan Llanberis: *"John Lloyd Hughes. Died of wounds in 1918. Of Brongraig. Possibly J J Hughes, Private 35485. Died 24/04/1918 aged 24. Varennes Military Cemetry. Machine Gun Corps. Son of John and Mary Hughes of Bryn, Llanrug."* Ac yr oedd rhieni John Hughes wedi symud o Hafod Owen, Ceunant i'r Bryn erbyn diwedd y rhyfel. Pwy felly oedd John Lloyd Hughes, Brongraig, Llanberis? Ai camgymeryd enw a wnaethpwyd, ynteu a oedd y fath berson â John Lloyd Hughes yn byw yn Llanberis? Dirgelwch – os na all rhywun o Lanberis roi eglurhad.

# Nid yw Cymru ar Werth

Mae'r ymgyrch i geisio sicrhau fod pobl leol yn gallu cael tai fel cartrefi yn eu cymunedau eu hunain wedi bod yn rhygnu mlaen ers degawdau. O'r diwedd, mae cyfle – o bosib y cyfle olaf - i setlo'r mater rŵan. Bu raliau mawr "Nid yw Cymru ar werth" yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a phwysau gan lawer o wleidyddion Gwynedd. Rwan mae Llywodraeth Cymru'n symud trwy roi grymoedd newydd i Gynghorau Lleol reoli gormodedd o ail gartrefi a llety gwyliau - er eu bod yn gyndyn o roi pres ychwanegol iddyn nhw weithredu'r grymoedd. Ond mae'r broblem sylfaenol yn aros - fod tai yn cael eu gwerthu fel nwyddau masnachol ar y farchnad agored, sy'n golygu mai'r bobl efo mwya o bres (fel arfer o ardaloedd eraill ag incwm uwch) yn llwyddo i brynu bron pob tŷ yn lle bod y tai'n mynd fel cartrefi i bobl leol.

Nid yn unig fod pobl leol yn cael eu gorfodi i symud o'r ardal, ond bydd ein holl wasanaethau cyhoeddus yn torri lawr hefyd

# “Gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion”

**Gweithiwr cefnogol yn annog eraill i ymuno â’r maes**

Mae Allison Evans yn weithiwr cefnogol gydag Antur Waunfawr, menter gymdeithasol sy’n cynnig gwaith, hyfforddiant a gweithgareddau lles i oedolion ag anableddau dysgu.

Mewn galwad i eraill ymuno â’r maes gofal, mae Allison wedi sôn am ei chyfnod yn Antur Waunfawr, cyfnod sy’n ymestyn yn ôl i 1998.

Dechreuodd Allison weithio gydag oedolion ag anableddau dysgu yn 1996, bryd hynny fel rhan o wasanaeth Cyngor Gwynedd. Cyn hynny bu’n gweithio gyda phobl hŷn a phobl oedd â dementia. Pan welodd bod swydd ar gael gydag Antur Waunfawr ym 1998, gwnaeth gais a bu’n llwyddiannus.

“Dwi’n cofio’r shifft gyntaf. Y noson gyntaf. Ym mis Ebrill 1998. Dyna pa mor glir ydi o yn fy meddwl.

“Nes i weithio am flwyddyn fel gweithiwr cefnogol ac o fewn blwyddyn ges i fy ngwneud yn is-reolwr, dros gyfnod mamolaeth.

“Ond fe wnes i aros yn y rôl honno yn y pen draw, yn benodol fel rheolwr y gwasanaeth tai. Wedyn nes i sefydlu ein Gwasanaeth Aml-ofynion yn 2010. Mae’r adran honno’n cynnig gwasanaeth therapiwtig i unigolion ag amrywiaeth o anghenion.

“Ar ôl hynny nes i ddychwelyd i weithio gyda phobl hŷn, ond o’n i’n gweld isio Antur Waunfawr. O’ni’n gweld isio cydweithwyr, ac yn gweld eisiau’r unigolion, ac felly nes i ddod nôl yn 2015.

“Erbyn hynny do’n i ddim isio swydd reoli, felly ers 2015 dw i wedi bod yn weithiwr cefnogol.

“Taswn i heb adael am gyfnod, faswn i wedi bod yma ers 25 mlynedd.”

Beth yn union sy’n ysbrydoli Allison yn ei gwaith dydd i ddydd?

“Gweld yr unigolion yn datblygu ac yn dod yn annibynnol, yn trio pethau newydd, dod â hapusrwydd i’w bywydau, dyna sy’n bwysig i mi.



“Ac mae ’na lot o amrywiaeth yn y gwaith.

“Dwi wedi gweithio ar y lein blastig, yn Warws Werdd, yn y Gwasanaeth Aml-ofynion, y caffi, safle’r Antur yn Waunfawr, y siop, y tai… dwi’n licio cael yr amrywiaeth yna.

“Hefyd, dwi’n enghraifft o sut mae gan Antur Waunfawr lwybr gyrfa clir, sy’n helpu aelodau staff i fynd ymhellach yn eu gyrfa os ydyn nhw isio.

“Nes i gwblhau fy diplomas trwy Antur Waunfawr, felly mewn ffordd maen nhw wedi buddsoddi ynof i.”

Beth yw atgofion melysaf Allison o’i chyfnod yn Antur Waunfawr?

“Mae gen i lot o atgofion o fynd ar wyliau. Unwaith, efo dau unigolyn yn Disneyland, Florida. Oeddan ni’n isda ar y stryd yn ganol nos yn gwylio’r tân gwyllt. *Dreams come true*, a phawb yn crïo. Atgof na i fyth anghofio...”

Ar hyn o bryd, mae Antur Waunfawr yn ceisio dod o hyd i fwy o weithwyr cefnogol i ymuno â’r tîm.

Dylai’r sawl sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am y swydd gysylltu â swyddi@anturwaunfawr.cymru neu 01286 650721. Mae’r hysbyseb swydd ar gael yma, a’r Pecyn Recriwtio yma.

- wrth fod nyrsys, postmyn ac eraill yn methu prynu na rhentu tai lleol. Mae Cymdeithas yr Iaith yn pwyso am Ddeddf Eiddo gyflawn i sefydlu unwaith ac am byth mai darparu cartrefi yw diben y farchnad dai, nid ceisio elw. Byddai Deddf Eiddo’n rheoli’r farchnad agored, yn blaenoriaethu pobl leol, ac yn rhoi grym i gymunedau lleol benderfynu ar eu polisïau tai a’u dyfodol. Wedi’r holl ddegawdau, mae’n bosib ennill hyn ond dwy flynedd yn ymarferol sydd ar ôl o dymor y Senedd hon, ac felly mae’n fater brys iawn.

Mae’n amlwg fod pobl bwysig o blaid yr ymgyrch hon gan fod Gŵyl Banc wedi’i drefnu ar gyfer DYDD LLUN 8fed o FAI ar gyfer Rali Nid yw Cymru ar Werth ar y Maes yng Nghaernarfon!! Bydd cerddoriaeth fyw o 11.30am ymlaen gyda Geraint Lovgreen, Maes Parcio a Twmffat, ac yna Rali am 1pm pryd y bydd Angharad Tomos a Robat Idris yn cyflwyno Mabon ap Gwynfor (AS Plaid Cymru), Dylan Lewis-Rowlands (Cynghorydd Llafur), Bryn Fôn, a Mared Llywelyn. Bydd gweld torf anferth ar y Maes y diwrnod hwnnw’n dwyn pwysau mawr ar Lywodraeth Cymru i weithredu. Er mwyn dyfodol cymunedau Cymraeg fel Llanberis, Llanrug ac eraill yn Arfon, gobeithio y bydd darllenwyr “Eco’r Wyddfa”’n gallu dod i’r rali a rhannu’r gair

**Ffred Ffransis ac Osian Jones**
Cymdeithas yr Iaith

# Englynion Coffa i J. Elwyn Hughes

(er cof am fy nghyfaill J. Elwyn Hughes)

Aeth iaith ein hen gymdeithas uniaith ni’n
faldorddi diurddas;
iaith ddi-fai yn fratiaith fras,
iaith ddinod, ddiberthynas.

Ond rhoes ei dalent ar waith i’w hadfer
rhag troi’n lledfyw ddiffaith;
adfer mireinder ei iaith,
ailfeithrin rhin yr heniaith.

Ei iaith oedd iaith yr ieithoedd iddo ef;
hi oedd iaith ei werthoedd;
yn ei waith a’i ddarlithoedd
perffeithydd o ieithydd oedd.

Heb Elwyn, pa hwb eilwaith i’n gwerthoedd
rhag troi’n garthion diffaith?
Hebddo a’i nawdd, bydd ein hiaith
bêr eto’n waeth na bratiaith.

Llawn hiwmor oedd. Llonnai ’mryd; doniolwch,
digrifwch gwâr hefyd;
ffraethineb bro ei febyd
oedd stôr ei hiwmor o hyd.

Ond â’r hiwmor yn drymach; ond â’r iaith
yn drist, yn sobreiddiach,
mae ei geirfa’n fil gwannach
a’i hen gystrawen yn strach.

Galarai uwch bwnglerwaith; llawenhai’n
llawn hwyl uwch gorchestwaith,
ail-greu’n gyfan, rhag anrhaith,
lendid cynhenid ein hiaith.

Yn eigion ein calonnau, hiraethu
y mae’r iaith a minnau
yn dristach a dwysach dau,
dwysach o weld ei eisiau.

Mae’r ing am amryw a aeth â’u hiwmor
ymaith yn ing helaeth,
ond am fy ffrind mwyaf ffraeth
mae dyfnach, chwerwach hiraeth.

**Alan Llwyd**

**Er cof am Elwyn**

Rhowch i’r un fu’n parchu’r iaith ei haeddiant
am ymroddiad hirfaith
yn rhoi dysg ar hyd y daith
yn llifeiriant llafurwaith.

Rhowch y mawl i’w Fraichmelyn am wreiddiau
yr amryddawn Elwyn;
am roddi gwerth mewn perthyn,
a’r cof o’r morthwyl a’r cŷn.

Rhoddwch i’r gwâr ei haeddiant; ein hanes
roes inni yn feddiant;
rhag y gwyll rhoi diwylliant,
rhoi stori’n plwyfi i’n plant.

**Ieuan Wyn**

Hoffem ymddiheuro’n ddiffuant i Mrs Deilwen Hughes a’r teulu, a’r Prifeirdd Alan Llwyd a Ieuan Wyn am yr anffawd ddigwyddodd wrth osod yr englynion coffa i’r diweddar Ddr J. Elwyn Hughes yn rhifyn diwethaf (Ebrill) yr Eco. Gobeithiwn bod popeth yn gywir yn y rhifyn hwn.

# BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Yng nghyfarfod mis Mawrth croesawyd pawb yn gynnes iawn i fwynhau noson arbennig. Roedd bwffe wedi ei baratoi ar y cychwyn, dan ofal Caryl o'r Pantri, i bawb i'w fwynhau. Cafwyd gwledd o fwydydd sawrus, brechdanau llawn danteithion, rholion selsig, amrywiol salad a chacennau gwerth chweil i orffen y pryd. Mwynhawyd y wledd yn fawr iawn gan bawb o'r aelodau.

Yn dilyn croesawyd Rhian Cadwaladr fel ein siaradwraig. Pleser oedd gwrando arni yn adrodd hanes ei phlentyndod yng nghaffi ei mam yn Llanberis a'i chyfnod fel actores enwog yn 'Rownd a Rownd' a 'Caffi Sali Mali' yn ogystal â nifer o raglenni eraill.

Aeth ymlaen i sôn am ei hanes fel awdures – yr hyn a fu yn freuddwyd ganddi ers peth amser. Cawsom ddarlleniadau byr o'i llyfrau – 'Fi sy'n cael y ci', ' Môr a Mynydd', 'Plethu' a 'Dathlu' a hyfryd oedd gwrando ar y detholiadau o'i gwaith.

I gloi bu'n trafod ei diddordeb mewn coginio a'i chyfraniad i'r rhaglen deledu 'BBC Good Food' oedd yn cynnwys nifer o'i rysetiau.

Roedd y noson hefyd yn Gyfarfod Blynyddol y gangen a chroesawyd Mrs P Ann Jones, o Ffederasiwn Sefydliad y Merched, fel





cynghorwr. Gwerthfawrogodd y cyfle o gael ymuno â Changen Brynrefail ar y noson gan ddiolch i'r aelodau am eu gwaith drwy'r flwyddyn, o gael mwynhau'r wledd a chyfarfod Rhian Cadwaladr.

Ail-etholwyd y swyddogion am flwyddyn arall. Diolchodd Pat i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen am flwyddyn brysur arall.

Hefyd dyma dymor Cynhadledd Ffederasiynau Cymru o Sefydliad y Merched. Dan ofal y trefnydd cenedlaethol Lisa Howells, o'r Swyddfa yng Nghaerdydd cynhaliwyd y Gynhadledd eleni yn y Galeri, Caernarfon gyda Ffederasiwn Gwynedd yn westeiwyr. Cynigwyd bwrdd yn y cyntedd i aelodau Sefydliad Brynrefail werthu crefftau o'u heiddo. Cyflwynodd Pat, Carol, Dwynwen a Cerid nifer o eitemau wedi eu cynllunio a'u gwnïo yn gain dros ben.  Mae ein diolch hefyd i 'Peris Quilters' am eu rhodd o Gwilt arbennig o hardd i Sefydliad Brynrefail ar gyfer y Raffl.







# Un funud fach ...

## Y DUW BYW

Wyddoch chi mai benthyg y geiriau a wnaeth Paul McCartney? Rhag bod unrhyw ddryswch, gwell i mi egluro nad sôn am ei ganeuon yr ydw i ond am rywbeth a ddywedodd ym 1969, 'Mae'r sibrydion am fy marwolaeth wedi eu gorwneud'. Ymateb oedd McCartney i theorïau cynllwyn a honnai'n gwbl ddi-sail ei fod wedi marw mewn damwain car dair blynedd yn gynharach, a bod gweddill y Beatles wedi cael gafael ar rywun tebyg iawn yr olwg iddo i gymryd ei le. Benthyg neu efelychu geiriau a ddywedwyd dros 70 o flynyddoedd yn gynharach gan Samuel Langhorne Clemens, yr awdur Americanaidd sy'n fwy adnabyddus wrth yr enw Mark Twain. O ddarllen adroddiadau'r Wasg ei fod wedi marw, ysgrifennodd Twain, 'Gor ddweud oedd yr adroddiad am fy marwolaeth!' Ar y pryd, roedd perthynas iddo'n wael iawn, a'r gohebwyr yn amlwg wedi cam ddeall yn arw; ond roedd Twain yn fyw ac iach.

Nid McCartney yw'r unig un a fenthyciodd eiriau Twain. Yn rhyfedd iawn, o gofio mai 'Apple' oedd enw'r cwmni recordio a sefydlwyd gan y Beatles, defnyddiwyd y geiriau hefyd gan Steve Jobbs, cyd-sylfaenydd y cwmni 'Apple' arall, wedi i bapur newydd gyhoeddi ei fod wedi marw. Roedd hynny fwy na thair blynedd cyn ei farwolaeth ym mis Hydref 2011. Dros y blynyddoedd, cafodd y geiriau eu cymhwyso lawer gwaith, a'r cymhwysiad mwyaf trawiadol o ddigon yw'r cyhoeddiad bod yr adroddiadau am farwolaeth Duw wedi eu gorwneud ac yn ddi-sail.

Mae yna fwy na digon o bobl heddiw o'r farn fod Duw'n gwbl amherthnasol. Os bu fyw erioed, mae wedi marw erbyn hyn. Go brin fod y rhelyw o bobl sy'n dadlau felly'n sylweddoli bod y fath beth â 'Diwinyddiaeth Duw wedi Marw', a gysylltir â'r athronydd Almaenig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, Friedrich Nietzsche. Mynnai hwnnw bod y syniad o Dduw personol a byw a geir yn y Beibl wedi ei chwalu'n llwyr gan wyddoniaeth a secwlariaeth ei oes. Beth bynnag a olygai Nietzsche wrth ddweud fod 'Duw yn farw', mae miloedd lawer o bobl Cymru heddiw'n mynnu bod Duw wedi hen beidio â bod ac mai ofer pob sôn amdano yn yr oes sydd ohoni.

Bu farw Nietzsche, ond mae'r Duw y mynnai'r athronydd ei fod yn farw mor fyw ag erioed. O bosibl nad felly y gwêl cyfran helaeth os nad y mwyafrif o bobl ein gwlad bethau. Ond ynfydrwydd llwyr yw sôn am farwolaeth y Duw Byw, y gwir a'r bywiol Dduw, y Duw tragwyddol nad oes iddo na dechrau na diwedd. Mae'r Duw Byw ar ei orsedd; mae wrth ei waith; ac mae'n wrthych addoliad i filiynau o bobl o hyd. O bosibl bod y rhelyw o bobl Cymru'n amheus o hynny; o bosibl y bydden nhw'n benthyca ac yn efelychu geiriau Nietzsche, ond nid yw hynny'n newid dim ar y gwirionedd am y Duw Byw. Nid fu bodolaeth Duw erioed yn ddibynnol ar bobl a'u parodrwydd i gredu ynddo. Yr un peth y medrwn fod yn sicr ohono yw y bydd Duw yn fyw ac wrth ei waith, beth bynnag a feddwl neb ohono a beth bynnag a ddywed neb amdano. Yr un yw'r Duw Byw o oes i oes, a dyna gysur a gobaith ei bobl, beth bynnag a ddywed neb.

**JOHN PRITCHARD**

# Caffi Trwsio Llanrug

Ydach chi'n gallu troi eich llaw at drwsio bob math o bethau? Oes gennych chi chi 'chydig o oriau i'w sbario ddydd Sadwrn 17 Mehefin? Mae yna Gaffi Trwsio newydd sbon yn cael ei gynnal yn Neuadd Goffa Llanrug rhwng 10.00AM - 1.00PM ac maent yn chwilio am wirfoddolwyr fedr gynnig helpu i drwsio bob math o nwyddau fyddai fel arall yn cael eu taflu i'r bin. Mae galw hefyd am wirfoddolwyr i groesawu pobl a chynnig paned iddynt.

Bydd y digwyddiad yn gyfle i dreialu'r syniad o gynnal caffi trwsio, ac mae croeso i unrhyw un alw draw gyda nwyddau i'w trwsio neu i gael paned a sgwrs i drafod syniadau am sut i ailgylchu nwyddau a'u hachub o'r domen sbwriel.

I gael gwybod mwy cysylltwch â Lowri Hedd Vaughan, Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi dros Ddyffryn Peris - lowri@deg.cymru / 07850 352478




















# Crwydro gerddi



1



2



3



4



5



6



7



8



9

Doeddwn i ddim wedi meddwl crwydro unrhyw ardd, roedd gen i ddigon o waith i'w wneud acw yn yr ardd ac roedd hi'n braf. Ond wrth deithio nôl o Fangor ar brynhawn Sadwrn yng nghanol mis Ebrill, gwelais arwyddion bod sêl planhigion yn Ngerddi Botaneg Treborth. Felly dyma droi trwyn y car am Dreborth i weld beth oedd ar gael, ond roeddan ni'n rhy hwyr i'r sêl! Ta waeth mi oeddan ni'n gallu crwydro'r gerddi, gan eu bod ar agor i'r cyhoedd yn ystod oriau golau dydd.

Os ydach chi am ymweld â'r tai gwydr mae'n rhaid ymweld ar ddyddiau Mercher neu Gwener rhwng 10:00 a 16:00 (neu pan mae digwyddiad arbennig yn cael ei gynnal yno). Os ydych â diddordeb mewn gwirfoddoli, gallech ymuno â Ffrindiau Gerddi Botaneg Treborth, a sefydlwyd yn 1997, nhw sy'n trefnu pethau ar y safle megis sel planhigion a dyddiau agored. Cewch fanylion pellach ar eu gwefan www.treborth.@bangor.ac.uk neu ffoniwch 01248 38 88 77.

Mae'r gerddi, sy'n swatio ar lannau'r Fenai, rhwng dwy bont hanesyddol, yn werth i'w gweld beth bynnag. Mae'r tir wedi ei drin ers degawdau a phrynodd Prifysgol Bangor y safle yn 1960 ar gyfer caeau chwaraeon a'r Ardd Fotaneg. Mae casgliad o dros 2,500 o rywogaethau cynhenid ac esotig yn y gerddi a'r tai gwydrau. Defnyddir yr adnoddau hyn o hyd i addysgu ac ymchwilio ym Mhrifysgol Bangor ac maent yn ceisio ymestyn mynediad i'r cyhoedd, addysg a mwynhad.

Un o'r pethau roeddwn i'n ei hoffi am y gerddi oedd bod y gwyllt a'r ffurfiol yn cyd-blethu ochr ac ochr a'i gilydd. Bylbiau, coed a phlanhigion gwyllt o bob math. Blodau gwyllt megis y fioled, llygaid Ebrill a bwtsias y gog, y rhai cyntaf i mi eu gweld eleni!

**1 - 3**

Braf gwel bod hen foncyffion a brigau'n cael eu gadael yn y fan a'r lle i bydru a chreu bwyd i'r bywyd gwyllt.

**4**

Yn ogystal â blodau mi ydw i hefyd yn dotio at y rhedynnau ar adeg yma'r flwyddyn, yn rhyfeddu fel mae'r dail sydd wedi cyrlio i fyny'n dynn yn agor a chreu planhigion hardd o bob siâp a maint.

**5 a 6**

Mae'r coed yn hyfryd a'r blodau gwyn a phinc ar rai ohonynt, yn wledd i'r llygaid, ond yn rhy fawr i gael llun call ohonynt. Fodd bynnag mi oedd yn rhaid tynnu llun o risgl arbennig yr Acer griseum (*Paperbark Maple*). Siŵr bydd lliwiau dail hon yn hyfryd yn yr hydref hefyd. **7**

Roedd yr *hellebores* dal yn eu blodau a gweld bod angen gwarchod planhigion yma hefyd, hyd yn oed os nad oes cath fawr sunsur o gwmpas! **8**

Dotiais at y magnolia stellata (dal i ddisgwyl i'r un acw agor) ac addewid o flodau ar y magnolias mwy ymhellach ymlaen yn y flwyddyn **9**

Mae'n lle da i deuluoedd a phlant ifanc, wedi'r cyfan pa blentyn na fyddai'n mwynhau chwilota yn y pyllau '*pond dipping*'? **10 ac 11**

Roedd y Gwely gloÿnnod wedi ei blannu efo blodau a phlanhigion sydd yn denu gwenyn, pryfed a gloÿnnod atynt, megis lafant, rhosmari a'r hebog lys melyn ( *pilosella aurantiaca* ( *fox and cubs*). Welais i'r un glöyn, debyg bod ganol mis Ebrill er ei bod yn heulog braf, braidd yn gynnar. Ond roedd pryfed a gwenyn i'w gweld ymysg y blodau oedd eisoes wedi agor.

# Ffair Ffeirio

Cynhelir Ffair Ffeirio yn Y Ganolfan, Llanberis am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, Mai 10 i godi arian at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd.

Cyfle fydd hwn i ferched gael gwared â hen ddillad nad ydych eu hangen trwy eu ffeirio am ddillad y bydd merched eraill wedi eu cyfrannu.

Dyma'r manylion pwysig:

Gellir cyfrannu dillad – mewn cyflwr da, ond nad ydych chi eu hangen bellach.

Gellir hefyd gyfrannu esgidiau, bagiau, ateglion, tlysau (ond NID clustdlysau).

Pawb i gyfrannu 4 eitem os gwelwch yn dda.

Rhowch bob dilledyn ar hongiwr (hanger), gan nodi'r maint.

Bydd angen i bawb roi neu anfon y dillad at berson cyswllt wythnos ymlaen llaw er mwyn i bopeth fod yn drefnus. Cysylltwch ag un o'r rhifau isod i gael gwybod sut i wneud hynny.

Y tâl mynediad i'r noson fydd £5.

Bydd paned a chacen ar gael; ond yn bwysicach wrth gwrs o gofio mai Ffair Ffeirio fydd hi, cewch ddewis hyd at bedwar eitem o'r 'siop' yn lle'r rhai a gyfrannoch chi.

Am ragor o fanylion, ffoniwch un o'r ddau rif yma:

Diane Peters – 07760 391574
Mair – 07930 836039








10



11




12



13



14



15




16




17



18



19



20



21

Wrth gwrs dyma le delfrydol i osod Cychod gwenyn - **12 ac 13**

Cennin pedr gwynion wedi eu plannu'n hynod effeithiol ar hyd ymylon y llwybr sy'n arwain chi drwy gylch i'r Ardd Tsieineaidd, heibio lliwiau melyn yr Acer felyn a'r haul yn ei goleuo a sylwi ar yr *erythronium* neu lili'r brithyll hyfryd efo'i liw melyn ysgafnach. **14 a 15**

Rhaid i mi dynnu fy nghap (sori - allwn i ddim maddau!) i'r rhai greodd yr ardd a'r llwybrau - ac arwydd bostion i rai fel fi sy'n dueddol o fynd ar goll wrth grwydro… **16 a 17**

Mae naws naturiol a mwy strwythuredig i'w gweld yn y gerddi yma. Gyda photiau mawr llawn tiwlipau yn ogystal â'r lliwiau ffurfiau coed a phlanhigion yn ychwanegu diddordeb a strwythur i'r plannu. **18**

Un peth am grwydro gerddi pobl eraill ydy eich bod yn gallu mwynhau pethau ar raddfa lawer mwy na allwch chi ei greu yn eich gardd eich hun a blodau gosgeiddig megis y crown fritillary sydd angen lot llai o wynt nag acw. Yn sicr roedd yr Ardd Greigiau yma'n werth ei gweld gyda - fflachiadau o liw yma ac acw ynghyd a llecyn braf i eistedd a mwynhau'r olygfa. **19 - 21**

Chawson ni ddim prynu planhigion, ond mi gawson ni wledd o liw, ffurf a mwynhad. Edrych ymlaen at gael dychwelyd.

# Age Cymru Gwynedd a Môn yn barod am y Gwanwyn!

A hithau bellach yn gyfnod y Gwanwyn, rydym yma yn Age Cymru Gwynedd a Môn wedi cael cyfle i edrych yn ôl ar y gwaith a'r ymdrechion yn lleol dros y misoedd diwethaf. Yn sicr, mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn i bawb o ran yr argyfwng costau byw.

Dros gyfnod y Gaeaf, rydym wedi cydweithio gyda sawl cymuned yn lleol a chyda phartneriaid er mwyn darparu cyfleoedd i bobl gymdeithasu. Mae yna glwb cinio wedi cwrdd yn fisol yn ogystal â'r gweithgareddau arferol sy'n cael eu cynnig o'r Cartref, Bontnewydd. I'r rhai hynny nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi, cofiwch fod y gwasanaeth Pryd yn y Cartref dal ar gael gyda phrif gwrs yn £6 a phwdin yn £2.50 ychwanegol.

Mae Y Cartref, Bontnewydd wedi ei gynnwys yn un o'r Mannau Croeso Cynnes (Cyngor Gwynedd) yn lleol; a phob dydd Llun rydym wedi bod yn cynnig cawl/lobscows a phaned am £3. Mae prynhawn Llun wedi dod yn boblogaidd iawn yn ddiweddar yn sgil y Clwb Dominos a Chwist sydd yma gyda dros 20 yn mynychu'n rheolaidd ac yn mwynhau sgwrsio a chymdeithasu!

Ni fydd yr argyfwng costau byw yn ein gadael ar frys, ac felly fe'ch atgoffir o'r gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth rydym yn gynnig sy'n cynnwys mynd i'r afael â materion costau byw. Yn ystod Mawrth 2023, cynhaliwyd digwyddiad costau byw a llesiant yn Y Cartref, Bontnewydd gyda sawl mudiad yn bresennol er mwyn darparu gwybodaeth i'r nifer helaeth ddaeth draw.

Cyngor Gwynedd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol yn y digwyddiad diweddar yn Y Cartref, Bontnewydd

Ar Fawrth 1af 2023, cafwyd cinio dathlu Gŵyl Dewi yn Y Cartref, Bontnewydd gyda dros 40 yn gwledda yn cynnwys adloniant godidog gan Hogia'r Bonc.

Rydym ar ganol cynllunio nawr ar gyfer tymor y Gwanwyn. Yn ogystal â'n rhaglen arferol o weithgareddau, rydym yn cynnal noson arbennig nos Fercher, 26ain Ebrill yn Y Cartref, Bontnewydd: bydd yno arddangosfa ffrogiau priodas o gasgliad personol Paula Morris Jones. Pris y noson yw £6, yn cynnwys bwffe a phaned. Yna, ddydd Llun, 22ain Mai, byddwn yn cynnal trip bws i Erddi Bodnant gyda phris o £12 y pen, yn cynnwys cost bws a thocyn mynediad i Bodnant. Cysylltwch ag Eleri Lovell ar 01286 685 920 neu Lovell.eleri@acgm.co.uk am wybodaeth bellach neu i archebu tocynnau.

Os oes arnoch angen unrhyw un o'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig NEU os oes gennych ddiddordeb mewn dod i weithio neu wirfoddoli gyda ni a chynorthwyo'r gymuned leol, cysylltwch â ni ar 01286 677 711 neu info@acgm.co.uk.





# Garddio

## MAI

Wrth i mi deipio (ym mis Ebrill) mae hi'n bwrw eira a'r cenllysg yn drybowndian hyd lwybrau'r ardd! Mantell o eira wedi gorchuddio'r mynyddoedd - ond… mae pobl y tywydd yn gaddo tywydd braf wythnos nesaf. Amser a ddengys ond mae'n hen bryd i'r tywydd gynhesu ac i'r haf gyrraedd!

Yn ôl fy niweddar dad, yr amser cywir i blannu tatws newydd (cnwd cyntaf) oedd ar ddydd Gwener Groglith. Gan iddi fod mor oer (ar waelodion Moel Rhiwen) ond wnes i ddim. OND – roedd Alaw ar 'Galwad Cynnar' yn dweud dylwn fod wedi eu plannu, a hyd yn oed plannu'r rhai prif gnwd cyn diwedd mis Ebrill. Roeddwn i wedi plannu tair taten mewn pot mawr (a gwlân) yn y tŷ gwydr ddechrau mis Ebrill. Felly doedd dim amdani ond plannu'r gweddill yn yr ardd ar y dydd Sadwrn ar ôl dydd Gwener Groglith. Ond dydy'r stori ddim yn gorffen yn fanno. O na! Y peth olaf ddywedodd yr arbenigwraig, ar ôl rhestru mathau da o datws i'w plannu oedd bod un math o datws na ddylech chi eu plannu, sef '*Rocket*.' Pan es i i'r llofft i nôl y rhai oedd gen i wedi egino, does dim angen gofyn pa rai oedd gen i! Ia siwr -'*Rocke*t! Asiffeta mae isio gras weithiau. Yr unig gysur sydd gen i ydy bod Awen wedi awgrymu '*Red Duke of York*' a fy mrawd yn daer nad oeddan nhw'n arbennig o dda… felly croesi bysedd y bydd '*Rocket*' yn flasus, pan fyddai'n eu codi ymhen 12 wythnos!

Erbyn hyn mae modd dechrau plannu hadau yn syth i'r pridd. Ond cofiwch gadw llygaid barcud ar y rhagolygon tywydd, er mwyn gwarchod y planhigion ddaw yn sgil y plannu hwnnw, Os ydy'n gallu bwrw eira ym mis Ebrill mae hefyd yn gallu barugo ym mis Mai. Mi ydw i'n disgwyl am archebion drwy'r post ar hyn o bryd ac yn barod i blannu'r blodau blwyddol gyrhaeddith, ar y cyd â'r rhai fydda i wedi eu tyfu fy hun. Yn ogystal â phlannu planhigion newydd, mae hefyd modd cymryd toriadau oddi ar goed meddal i greu planhigion newydd, am ddim.

Tasgau

1. Gwylio a gwarchod pia hi. Bydd angen amddiffyn planhigion nad ydynt wedi arfer bod allan. Os ydyn nhw allan yn ystod y dydd i ddechrau caledu, bydd angen dod a nhw i mewn, neu roi rhyw fath o orchudd drostynt yn ystod oerfel y nos.

2. Bydd angen priddo'r tatws fel maent yn tyfu, bydd hyn hefyd yn eu gwarchod rhag y barrug. Cefais gyngor gan gymydog i ddefnyddio'r toriadau gwair o'r lawnt os ydy'r pridd dipyn yn brin i'w gorchuddio, ac mi weithiodd yn iawn i mi llynedd. Os oes dail allan o'r pridd pan yw'n barugo, taenwch ychydig o ddŵr cynnes drostynt ac mi ddylen nhw fod yn iawn.

3. Plannwch y blodau blwyddol yn ail hanner y mis, gan eu gwarchod, fel nodir uchod, fel bo'r angen.

4. Bydd coed eirin a cheirios yn llawn blodau yn ogystal â choed afalau a gellyg. Gall barrug effeithio arnynt bob un. Gorchuddiwch goed bach gyda *horticultural fleece* gyda'r nos os oes barrug wedi ei ragweld – sicrhewch o i'r goeden gyda phegiau pren a'i dynnu eto yn y bore. Maent i gyd yn gallu cael eu heffeithio, felly croesi bysedd bydd y barrug yn cadw draw pan fyddant yn blodeuo er mwyn cael ffrwythau yn yr hydref.

4. Os ydach chi am sioe dda o gennin pedr y flwyddyn nesaf, torrwch y pennau blodau ond gadwech i'r dail farw yn naturiol. Bwydwch y planhigion gyda bwyd hylifol sy'n llawn potasiwm, unwaith yr wythnos, tan fo'r dail wedi melynu a dechrau crebachu. Bydd hyn yn gwella cryfder y bylbiau ar gyfer blodeuo eto yng ngwanwyn 2024.

5. Peidiwch â gadael i'r chwyn dra arglwyddiaethu. Chwalwch unrhyw un welwch chi. Mae'r hof yn ddull effeithiol o wneud hynny. Ar y llaw arall mae'r dant y llew (chwyn sy'n niwsans i'r mwyafrif o arddwyr) yn ôl pob son yn fwyd defnyddiol i bryfetach ac maent wedi cael eu defnyddio ers canrifoedd fel meddyginiaeth lysieuol. Mae'r prif wreiddyn hir *(taproot*) yn tynnu maetholion *(nutrients*) y pridd yn agosach i'r wyneb, gan gynyddu'r nitrogen i



blanhigion cyfagos. Dwi'n dal i'w gweld nhw fel chwyn ond am adael rhai, nad ydynt yn rhy amlwg, a cheisio mwynhau eu blodau melyn lliwgar cyn iddyn nhw droi'n bennau fflwfflyd fydd yn hadu pobman efo'i hadau ar barasiwt!

6 Croesi bysedd am dywydd braf, ond os ddaw o, bydd angen awyru'r tŷ gwydr drwy agor y drws a'r ffenestri ar ddyddiau cynnes. Cofiwch ddyfrio'n gyson hefyd.

7. Mae'r Is-Arddwr, (y gŵr) wedi torri'r lawnt sawl gwaith, a bydd angen ei dorri'n rheolaidd o hyn ymlaen, felly digon i'w wneud ar hyn o bryd. Bwydwch y lawnt, os nad ydach chi eisoes wedi gwneud hynny. Mae torri'n aml heb fod yn rhy hegar yn fwy effeithiol.

8. Yn union fel y cennin pedr, gadewch i ddail bylbiau'r gwanwyn farw a darfod yn naturiol. Os ydynt mewn potiau gallwch eu symud o'r neilltu os ydynt yn flêr. Cofiwch eu bwydwch efo gwrtaith hylifol er mwyn sicrhau sioe o flodau ar gyfer y gwanwyn nesaf.

Plannu a phlannu h.y. pob math o lysiau o bob lliw a bob llun, ar yr adeg yma o'r flwyddyn.

**Tatws:** Dylid fod wedi plannu'r tatws cynnar a diweddar erbyn mis Mai.
**Moron:** Fel llynedd byddaf yn plannu amrywiaeth o foron (caraints) byr mewn bocsys ail-gylchu. Os oes gennych bridd dyfnach a gwell cewch yr un llwyddiant yn syth i'r pridd wrth gwrs. 'Nantes' yw un o fy ffefrynnau fi ynghyd a '*Purple Haze*.'
**Nionod:** '*Stuttgarter*' a '*Kelsae*' yw'r rhai poblogaidd. Dim ond slots fyddai'n eu tyfu, dydy nionod arferol ddim yn gwneud yn dda yma.
**Ffa:** '*Aquadulce*' blannwyd llynedd, oedd yn eithaf llwyddiannus. Fodd bynnag, gan nad oes gen i fawr o le, dydw i ddim am botsian eleni. Mi ydw i hefyd wedi darganfod, waeth beth ddywed y gwybodusion, nad oes pwynt plannu hadau ffa dros y gaeaf - maent yn eistedd yn y pridd yn fferru a phydru!
**Pys:** Gallwch blannu pys cynnar unrhyw amser, hyd yn oed yn hwyr yn y tymor!
**Ffa Ffrengig a Ffa Dringo**: mae'n amser hau hadau yn barod i'w plannu allan pan fydd hi wedi cynhesu. Gall tatws wrthsefyll ambell i frathiad barrug - ond mi chwalith ffa, felly cadwch nhw mewn *cold frame* neu dŷ gwydr oer tan fod pob perygl o rew wedi pasio.
**Betys:** Erbyn hyn mi ydw i wedi dod i'r canlyniad nad ydy betys yn hoff iawn o'r tir/hinsawdd acw, felly wnâi brynu rhai yn yr archfarchnad, neu gorau oll y siop fferm leol. Os ydach chi'n cael gwell hwyl arni na fi '*Boltardy*' yw un o'r rhai mwyaf dibynnol.
**Bresych:** Dwy hen ffefryn yw *'Primo'* a '*Greyhound*'. Ond am ryw reswm mae Ysgall ddail yr Enfys ( *Rainbow Chard*) yn tyfu'n well acw - felly'n sicr mi fyddai'n tyfu dipyn o'r rhain. Pawb at y peth y bo.
**Letys:** Ym mis Ebrill plannais gymysgedd o letys mewn potyn mawr a'i roi ar y silff ffenest yn y parlwr. Edrach ymlaen at gael salad fel bydd y tywydd yn cynhesu ac o ddefnyddio'r dull o dorri fel bod angen, cewch sawl cnwd o'r un potyn. Bydd angen cofio plannu mwy bob ryw dair neu bedair wythnos i sicrhau parhad, mewn potia ac yn y pridd. O gofio eu dyfrio yn ddigon aml mi gewch ddail blasus o fis Mai tan fis Hydref. Mae *mizuna* a roced yn rhoi blas pupurllyd i salad ac wrth gwrs gallwch ddefnyddio dail ifanc y sbigoglys (*spinach*), ysgall ddail yr enfys, pys, persli Ffrengig , betys a dail *nasturtium* yn eich cymysgedd salad, i gael amrywiaeth o liw a blasau.



**Tomatos:** Cefais focs o *'funky veg'* fel anrheg Nadolig - pob math o domatos! Edrych ymlaen at weld beth ddaw… Ond os ddown nhw fydd gormod o beth wmbrath i'r tŷ gwydr! Rywun isio planhigion tomatos?
**Ciwcymbr**: Ar ôl plannu hadau Socrates F1 (fel llynedd) a La Diva (i weld sut fyddan nhw) mi eginodd yr hadau ciwcymbr yn dda. Ond och a gwae mi adewais i nhw yn y *propogator* yn rhy hir ac mae llawer o'r rhai symudwyd i botiau mwy yn nychu. Gobeithio bydd gen i ambell un i'w blannu yn y ty gwydr yr haf yma. Fel arall mi wneith esgus i fynd am y ganolfan arddio…
**Rhosyn Mynydd**

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CHWEFROR 2023

1. **DERBYN CROESO GAN Y CADEIRYDD**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau.

2. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 17 IONAWR 2023**
Cadarnhawyd y cofnodion fel rhai ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. **DERBYN UNRHYW SYLWADAU YN CODI O'R COFNODION**
Adroddwyd fod baw ci yn broblem yn Llanrug a Chwm y Glo.
Nifer o boteli gwydr Vodka ar lwybr cyhoeddus.

4. **DERBYN ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD BERWYN PARRY JONES, AELOD DROS GWM-Y-GLO AR GYNGOR GWYNEDD**

5. **DERBYN ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN, AELOD DROS LLANRUG AR GYNGOR GWYNEDD**

6. **DERBYN A MABWYSIADU POLISI AR GYFER MEINCIAU COFFAOL ODDI FEWN I ARDAL Y CYNGOR (COPI WEDI ATODI)**
Penderfynwyd: Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma.

7. **DERBYN A MABWYSIADU POLISI TREFN GWYNO (COPI WEDI ATODI)**
Penderfynwyd: Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma.

8. **DERBYN A MABWYSIADU POLISI TRIN CWYNION (COPI WEDI ATODI)**
Penderfynwyd: Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma.

9. **DERBYN A MABWYSIADU POLISI TRIN CWYNION BLINDERUS (COPI WEDI EI ATODI)**
Penderfynwyd:Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma.

10.**DERBYN DIWEDDARIAD AR REOLAU NEWYDD AR GYFER Y FYNWENT**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod i adolygu rheolau'r fynwent. Nodwyd fod y pwyllgor 95% o'r ffordd i'w adolygu a gobeithir dod a'r rheolau newydd i gyfarfod mis Mawrth o'r cyngor ar gyfer eu cymeradwyo a'i mabwysiadu.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

11. **DERBYN DIWEDDARIAD AR BOLISI BIOAMRYWIAETH**
Adroddwyd fod is-bwyllgor wedi cyfarfod i gychwyn ar y polisi a bod cyfarfod arall wedi ei drefnu ar gyfer wythnos nesaf.

Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad a diolchwyd iddynt am eu gwaith.

12. **DERBYN A MABWYSIADU POLISI GRANT DEWISOL YNGHYD A FFURFLEN GAIS (COPI WEDI ATODI)**
Penderfynwyd: Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma.

13**. DERBYN ADRODDIAD AM GYFARFOD PWYLLGOR HAMDDEN A MWYNDERAU A GYNHALIWYD AR Y 7ED O CHWEFROR 2023**
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

14. **APWYNTIO CYNGOR GWYNEDD FEL ARCHWILIWR MEWNOL AR GYFER ARCHWILIAD 2022/2023**
Penderfynwyd: Apwyntio Adran Archwilio Cyngor Gwynedd fel archwiliwr mewnol ar gyfer 2022/2023.

15. **DERBYN ADRODDIAD AM GYFARFOD PWYLLGOR BWYD A LLESIANT A GYNHALIWYD 25 IONAWR 2023.**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar y 25ain o Ionawr a bod y cynllun bwyd wedi colli rhai aelodau ond fod 3 cais wedi dod fewn am gymorth. Adroddwyd ymhellach fod cyfarfod o'r pwyllgor i'w gynnal am 17:45 ar 28ain o Chwefror 2023 i drafod gwariant grant.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.


16. **YSTYRIED PWRCASU GLINIADURON AR GYFER AELODAU OHERWYDD MAE'R TABLEDI PRESENNOL YN DOD I DDIWEDD EU HOES AC I YSTYRIED PERCHNOGAETH Y DATA SYDD YN CAEL EI GADW AR OFFER.**
Penderfynwyd: Dirprwyir gwaith ymchwil i'r clerc ac un cynghorydd i weld beth fyddai yn addas.

17. **CYMERADWYO EDRYCH FEWN I'R POSIBILRWYDD O NEWID CYFEIRIADAU E-BOST Y CYNGOR FEL EU BOD YN CYNNWYS 'LLYW' NEU 'GOV'.**
Adroddwyd gan y clerc nad oedd y cyfeiriad e-bost presennol yn adlewyrchu'r ffaith mai llywodraeth leol ydi Cyngor Cymuned Llanrug. Yr unig beth mae yn ddweud nawr ydi @llanrug.cymru.
Penderfynwyd: Y clerc i edrych fewn i'r posibilrwydd o ychwanegu 'llyw' a 'gov' yn y cyfeiriadau e-bost ond sicrhau fod 'Llanrug' yn parhau.

18. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
a) Rhif y cais: C22/1173/23/LL
Adeiladu agoriad dros dro ( am 3 blynedd) gyda leinin gwyn a seilwaith cysylltiedig, i gefnogi cynllun ehangach Amnewid Cebl Pentir, Dinorwig.
Lleoliad: Tir gyferbyn Carreg Y Fran, Cwm Y Glo.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad a chefnogi'r cais.
b) Rhif y cais: C22/1140/23/DT
Cais deiliaid tŷ i godi estyniad ochr a phorth newydd ynghyd â gwelliannau allanol a mewnol gyda clwydfan ystlumod/ storfa goed mewn adeilad arwahan.
Awel Y Mynydd, Ceunant.
Penderfynwyd: Cefnogi'r cais os yw'r awdurdodau perthnasol yn ei gefnogi.
c) Rhif y cais: C23/0048/23/LL.
Adeiladu tŷ. Tir Ger 8, Rhes Rhythallt, Llanrug.
Oherwydd bod cynrychiolaeth wedi ei wneud at y Cynghorydd Beca Brown gan yr ymgeisydd a gwrthwynebwyr, ni chymrodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.
Penderfynwyd: Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:-
- Pryder am y fynedfa o'r ddwy ffordd i'r eiddo.
- Pryder am orlifo.
- Gor-ddatblygiad o'r ardal.
-Eiddo mewn lle gwlyb.
-Cytuno gyda sylwadau adran Priffyrdd.

d) Rhif y cais: C23/0005/23/AM
Cais amlinellol i godi annedd deulawr gyda mynediad, dreif a dau lecyn parcio newydd. Tir Ger Llys Awen, Llanrug.
Penderfyniad: Gwrthwynebu am y rhesymau fel cais (c)
e) Rhif y cais: C23/0033/23/LL
Ty annedd newydd a llecynnau parcio. Tir Cae'r Eglwys, Ffordd Llanberis, Llanrug.
Penderfynwyd: Gwrthwynebu ar y sail ei fod yn or-ddatblygiad o'r safle.



# Ar ben arall i'r lein

O'r diwedd, mae'r 'sgota wedi dechrau. Er nad yw'r tywydd wedi bod yn ddeniadol, mae rhai wedi bod wrthi, yn enwedig ar y Rhythallt o Bont Pen Llyn i lawr am Stablau a chael gwobr o frithyll brown werth ei weld yn dod i'r rhwyd. Diolch i Dr Robin Parry am roi llun o un o'r pysgod hyfryd ar dudalen *facebook* y Gymdeithas. Mae'r safle yma'n profi'n eithriadol o boblogaidd, a cheir mwy o wybodaeth yno nag a drosglwyddir ar lafar y dyddiau hyn. Tydi'r hen fyd yma'n newid; ac nid am y goreu chwaith. Ymhen amser, mi fydd llawer yn methu cyfathrebu o gwbwl ond trwy ddull electroneg; a dwi'n rhy 'set' yn fy ffordd i fynd yn llwyr i lawr y ffordd yna, diolch i'r drefn ynde.



Brithyll glas Goronwy Roberts



Un o frithilliad Dr. Parry o'r Rhythallt

Wrth gwrs, mae ochr bositif i'r byd newydd yma, sef bod gwybodaeth am ble mae'r llefydd goreu i 'sgota yn dod atom mewn amrantiad llygaid bron. Dyma o ble daeth cipolwg fod Llyn Nantlle wedi cael dechrau tymor arbennig. Yr un sydd i'w weld yn cael hwyl arni yn Nyffryn Nantlle ydi Ian Williams, Llanberis; mae'n cael gwell hwyl yno nag yn Nyffryn Peris yn ôl pob golwg.



Un o frithilliad Ian Williams o Lyn Nantlle'

Rhaid hefyd peidio ag anghofio cyfeirio at y llecyn ble mae'r dynfa fwyaf ar ddechrau tymor, sef Llyn y Dywarchen. Yn ôl yr arfer, mae wedi cyflawni'r disgwyliadau gyda brithyll hyfryd sydd wedi gaeafu. Mae pysgod fel hyn mewn cyflwr ardderchog. Mae Goronwy Roberts, Llanrug wedi cael hwyl arni, gyda brithyll glas bron i ddau bwys ar ei gast cyntaf o'i ddiwrnod cyntaf allan. Da 'de. Mae'n argoeli'n dda bydd padelli llwglyd Llanrug yn cael eu bodloni eleni!

Dyna ddiwedd ar y pysgota am y tro, gan fod materion ddim mor bleserus yn ein wynebu. Mae'n eithriadol a anodd dadansoddi be sy'n mynd ymlaen o gwmpas yr hen le 'ma; a mwyaf tebyg bod llawer o drigolion yr ardal yn meddwl yr un peth. Y cyntaf ar ein bwrdd yw problem y chwyn ar Lyn Padarn. A dweud y gwir, does dim i'w weld yn cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd i geisio datrys y broblem. Mae'r arwyddion ger maes parcio glan y Llyn wedi eu tynnu i lawr, ac mae nofio, canwio a hwyl-fyrddio'n cael eu hannog, fel petai dim o'i le. Ac fel y mae pob synnwyr yn dweud y bydd y peth yn ymledu dros y lle. Gan ein bod fel Cymdeithas yn methu â chael na'r Cyngor na Chyfoeth Naturiol Cymru i roi unrhyw beth cadarnhaol i'n ffordd, yr unig ffordd i geisio cael unrhyw ben rheswm fydd cysidro camau eraill. Cofiwch mai fel hyn yr oedd pethau gyda phroblem yr algai flynyddoedd yn ôl: pob un o'r awdurdodau'n anwybyddu'r broblem, nes iddynt gael eu gorfodi i weithredu. Gobeithio'n wir na fydd raid mynd i lawr yr un ffordd unwaith eto.

Fel petasai mater y chwyn ddim yn ddigon, mae problem arall wedi ei hamlygu, unwaith eto'n ymwneud â Llyn Padarn: wel, nid y Llyn ei hun ond gyda'r rheilffordd sy'n rhedeg ar lan y Llyn. Mae'r cwmni sy'n gyfrifol am y lein bach wedi cymryd arno'i hun i osod ffens a llidiart ar ddiwedd y lein ym Mhen Llyn. Mae hyn wrth gwrs gyda'r bwriad o wahardd aelodau o'r cyhoedd rhag cerdded o Ben Llyn i'r Ffêr Injan. Mae'n rhaid cael tipyn o gydymdeimlad â'r cwmni gan fod cryn ddifrod yn cael ei wneud i'w eiddo, a bod yn ogystal dwmpethi o faw ci'n cael eu gadael o gwmpas y lle. Tydi hyn ddim yn beth deniadol o gwbl i weithwyr y lein. Y broblem fawr i ni fel Clwb yw ein bod yn berchnogion ar hawliau pysgota glannau'r Llyn sy'n ochri â'r lein. Ynghlwm â hawl perchnogaeth, mae'n naturiol dweud fod y gyfraith yn datgan bod gan ein haelodau hawl i dramwyo'r glannau'n ddi-rwystr.

Rydym wedi trafod y sefyllfa gyda'r cwmni i geisio datrys y broblem. A chwarae teg, fe roddwyd clo côd ar y giat at ddefnydd ein haelodau. Fe roddwyd y rhif i rai o'r aelodau. A wyddoch chi be? Fu'r clo yn ei le ond am dri diwrnod cyn iddo ddiflannu. Mae'n siomedig dros ben fod peth fel hyn wedi digwydd. Rydym nawr yn ceisio trefnu rhyw ffordd arall i'n haelodau gael mynediad. Cawn weld be' ddaw: achos yn y pen draw does dim angen cael drwgdeimlad o gwmpas y lle. Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r cwmni hefyd sylweddoli ei fod yn rhan o'r gymuned leol, ac mae hefyd raid i bawb o'r gymuned leol barchu eiddo'r cwmni. Rhyfedd ynde! O holl eiddo a hawliau pysgota'r Gymdeithas, yr unig leoliad ble mae trafferthion yn codi yw Llyn Padarn. O - a chyn gorffen efo hyn: mae wedi cael ei dynnu i'n sylw fod pysgota anghyfreithlon ar waith, eto ar y Llyn. Daliwch eich gwynt ar be sydd ar waith!

Yn ddiweddar, mae cryn amser wedi ei roi ar y cyfryngau i'r mater fod y cregyn gleision (misglod) perlog dŵr croyw wedi prinhau fel eu bod mewn perygl o ddiflannu'n gyfan gwbl. Hyd y gwn i, nid oes rhai yn y fro hon, yr agosaf o bosib yw Afon Conwy. Fodd bynnag, y mae'n bysgodyn cregynog, gyda chylch bywyd diddorol dros ben, gan ei fod yn bwrw grawn ar yr un adeg ag y mae'r eog yn rhedeg yr afon. Mae'r grawn yn glynu wrth dagellau anadlu'r eog, ac felly'n cael ei gludo gan y 'sgodyn yma i wahanol rannau o'r afon. Wedi iddo aeddfedu, mae'n gollwng ei





Cregyn gleision perlog dŵr croyw

afael a disgyn i ddechrau ei fywyd yng nghanol cerrig yr afon. Wrth reswm felly, mae'n rhaid cael nifer dda o eogiad yn rhedeg ein hafonydd. Felly, mae nifer dda o eogiad yn golygu nifer dda o gregyn gleision. Ond yn anffodus, mae'r eog bron â diflannu o ddyfroedd Cymru, ac o bosib felly mi fydd y cregyn gleision yn mynd yr un ffordd.

I ble dwi'n mynd, medda chi? Wel, does dim byd yn newydd yn nag oes. Oherwydd bron i ugain mlynedd yn ôl, roeddwn yn aelod o Bwyllgor Pysgodfeydd ac Ecoleg Cymru, sydd wedi peidio â bod ers rhai blynyddoedd bellach. Ond bryd hynny, roedd yr un broblem o brinder cerrig gleision ar yr agenda. Be oedd yr ateb? Dyma fo i chi: ceisio cadw rhai o'r perlogau mewn deorfa i gynyddu eu grawn. Hefyd, defnyddio'r deorfeydd i gynyddu'r rhaglenni stocio eog. Mi oedd hyn i'w weld yn cael rhyw ychydig lwyddiant. Ond be ddigwyddodd dair blynedd yn ôl? Gwnaed penderfyniad gan Gyfoeth Naturiol Cymru i atal rhaglenni stocio eog yn gyfan gwbl, a hynny pan oedd yr eog eisiau pob cymorth i ffynnu.

Felly, yn naturiol, llai o eog ac yn dilyn llai o'r cregyn perlog. A wyddoch chi be? Dwi'n crafu fy mhen wrth feddwl be goblyn sy'n mynd ymlaen gan fod yr argyfwng presennol wedi sbarduno Cyfoeth Naturiol Cymru i ail gydio yng nghynllun magu'r cregyn yn ei deorfa. Y cyhoeddiad nesaf o bosib fydd ail afael yn y cynllun stocio eogiaid! Dyma esiampl dda o geiso ail ddyfeisio'r olwyn. Does eisiau gras hefo rhai yn does.

Wel, dyna ni unwaith eto; a gobeithio wir eich bod yn medru gwneud synnwyr o hyn i gyd.

**Huw Price Hughes**




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk


# CHWILAIR MIS MAI
# ADAR YR ARDD

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll | I | N | O | S | W | E | R | Dd | T | O | L | I | N | T |
| I | M | E | Ll | W | Y | D | Y | B | E | R | Th | A | S | U |
| N | C | W | A | N | Th | Ll | Dd | F | P | L | Ll | E | Ph | R |
| O | T | D | M | O | I | T | C | I | D | R | Y | W | E | T |
| S | I | U | W | B | A | N | S | R | E | O | Dd | N | U | U |
| B | T | R | Y | Ch | R | B | A | B | T | R | E | A | T | R |
| E | W | D | A | R | F | E | Y | Y | Ll | A | N | P | S | D |
| N | T | U | L | C | N | Ch | N | A | L | C | S | I | I | O |
| G | O | D | Ch | E | O | Y | R | E | Y | D | T | L | G | R |
| O | M | S | E | C | R | M | N | R | J | Rh | O | A | L | Ch |
| Ch | O | G | N | E | B | S | O | N | I | Ll | D | G | D | O |
| E | S | F | D | C | T | L | C | A | B | E | Y | W | I | G |
| L | B | A | G | O | E | J | I | M | I | D | C | Y | G | S |
| Y | J | N | C | D | B | I | N | E | N | W | A | R | W | E |
| R | O | B | I | N | G | O | Ch | W | C | R | J | Dd | T | I |

**ADERYN Y TO**
**BRONFRAITH**
**COCH Y BERLLAN**
**DELOR Y CNAU**
**DRUDWEN**
**DRYW**
**JAC Y DO**
**JI-BINC**
**LLINOS BENGOCH**
**LLINOS WERDD**
**LLWYD Y BERTH**
**MWYALCHEN**
**NICO**
**PILA GWYRDD**
**ROBIN GOCH**
**SIGLDI GWT**
**TITW TOMOS**
**TURTUR DORCHOG**

Dwi'n gyfarwydd â gwahanol enwau i rai o'r adar sydd wedi eu cynnwys yn chwilair y mis hwn. Enw arall ar y Ji-binc yw Asgell Arian, tra caiff y Sigldigwt hefyd ei galw'n Siglen Fraith. Os ewch i lyfr adar Iolo William mae rhestr o 15 enw ar gyfer beth fyddwn i'n ei galw'n Llwyd y Berth neu'n Llwyd y Gwrych e.e. Siani Lwyd, y Fronfraith Fach ayyb a llawer un arall efo mwy nag un enw. Mae'r enw Saesneg i'w gael o dan yr enw Cymraeg yn llyfr Iolo ac mi ydw innau wedi cynnwys geirfa ddwy-ieithog i chithau.

Cewch yr atebion i'r chwilair hwn a'r cwestiwn uchod yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

Geirfa dwy-ieithog ar gael ar dudalen 27 i'n siaradwyr Cymraeg newydd.

## ATEBION I CHWILAIR MIS EBRILL - ADAR Y GLANNAU

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | W | Y | L | A | N | G | E | F | N | Dd | U | F | W | Y | A | F |
| A | E | C | W | O | A | T | S | B | F | O | L | O | Ng | T | P | C |
| H | N | I | Th | I | E | R | Y | N | E | D | A | Y | W | H | I | D |
| Y | B | E | D | F | Ch | O | M | S | T | Y | F | E | Y | D | B | S |
| S | P | I | O | D | E | N | Y | M | O | R | H | S | T | B | Y | Th |
| I | T | F | A | C | S | L | G | A | Ll | N | U | D | A | S | Dd | E |
| G | R | C | W | T | I | A | D | T | O | R | G | O | Ch | E | C | A |
| B | W | Th | I | Ll | U | R | S | E | W | A | A | I | L | U | O | R |
| Ll | D | Y | F | E | A | G | O | A | H | C | N | Y | S | W | E | T |
| E | U | M | L | D | M | W | N | I | G | W | D | R | F | W | S | Y |
| S | N | A | P | O | N | Y | A | N | W | O | R | L | E | C | G | D |
| O | P | L | U | E | G | L | Th | H | C | D | Ch | O | B | N | O | A |
| N | E | S | Y | C | R | O | E | T | A | I | P | T | U | E | Ch | I |
| G | F | I | U | L | P | G | C | M | U | L | F | R | A | N | B | T |
| A | D | E | R | Y | N | D | R | Y | C | I | N | M | A | N | A | W |
| W | M | O | R | W | E | N | N | O | L | B | S | T | Y | R | I | C |
| Ph | R | Y | G | I | A | W | N | E | P | Y | N | A | L | Y | W | G |

**ADERYN DRYCIN MANAW**
**BILIDOWCAR**
**CWTIAD TORCHHOG**
**CWTIAD Y TRAETH**
**GWYLAN GEFNDDU FWYAF**
**GWYLAN Y PENWAIG**
**GWYLOG**
**HUGAN**
**HWYADEN YR EITHIN**
**LLURS**
**MORWENNOL**
**MULFRAN**
**PAL**
**PIBYDD COESGOCH**
**PIODEN Y MOR**

# Twrnament Clwb Pêl-droed Bethel

Ar Benwythnos 1af ac 2il o Ebrill, cynhaliwyd twrnament pêl-droed i oedrannau dan 7, 8, 9 a 10.

Roedd 12 tîm ym mhob oedran a chwpan ar gael i'r enillwyr.

**Dan 7** - Bethel wedi llwyddo i chwarae i'r ffeinal a churo Bobcats Bae Colwyn o 5 gol i 0. Diolch i Huws Gray am noddi'r gwpan dan 7.

**Dan 8** - Bethel wedi llwyddo i ddiweddu ar dop eu grŵp nhw. Chwarae holl ffordd i'r rownd cyn derfynol, Wynebu Llanrug yn y rownd cyn derfynol â Llanrug yn cipio'r. Rownd Derfynol. Roedd Llanrug v Menai Bridge Tigers a Llanrug yn cipio'r gwpan o un gôl i ddim.  Diolch i Sbarduno am noddi'r gwpan dan 8 eleni ac i Llew am gyflwyno'r tlws ar ran Sbarduno.












**Dan 9** - Bethel yn cipio'r gwpan ar ôl chwarae drwy'r twrnament heb golli gem.  Yn y ffeinal yn erbyn Llanrug.  Diolch i Drydanwyr DRW am noddi'r gwpan.

**Dan 10** - Bethel yn cipio'r gwpan. Roedd timau o Fanceinion a lawr yr arfordir ond dau dîm lleol lwyddodd i gyrraedd y ffeinal, Bethel a'r Felinheli.  Bethel yn curo 2-0.  Diolch i Geir RD Cars am noddi'r gwpan eleni.

Diolch yn fawr iawn i'n holl wirfoddolwyr ar y dydd, yn enwedig i'n dyfarnwyr.  Diolch arbennig i'n dyfarnwyr ifanc, Max, Morgan a Meilir o tîm dan 13 y clwb fuodd yn dyfarnu twrnament dan 7 ac i Gruff, Llŷr a Jac o'n tîm dan 14 ni am ddyfarnu twrnament dan 8.

Bydd twrnament nesaf y clwb yn cael ei gynnal ar y 15fed Ebrill i dimau dan 14 a'r timau dan 11, 12, 13,a 15 ar benwythnos 22ain a 23ain o Ebrill.

# Cymru ifanc yn disgleirio

Ar ôl gorffen ar frig ei grŵp rhagbrofol yng Nghroatia ym mis Hydref roedd Tîm Dan 17eg Cymru yn dychwelyd ar gyfer Rowndiau Elite Dan 17 UEFA ddiwedd Mawrth. Roedd Cymru yng Ngrŵp 2 gyda'r Alban, Montenegro a Gwlad yr Iâ, a holl gemau'r grŵp yn cael eu chwarae yn ne Cymru.

Y gwrthwynebydd cyntaf i Gymru oedd yr Alban, draw yn Rodney Parade, Casnewydd. Ac am gychwyn i Gymru, gyda 2 gôl yn y 10 munud cyntaf! Iwan Morgan â'r gyntaf a Gabriele Biancheri o Man Utd gyda'r ail wedi blerwch yn amddiffyn Yr Alban.


Luey Giles

Yn fuan ar ddechrau'r ail hanner, aeth pethau'n well fyth i Gymru wrth i ymosodwr Abertawe, Iwan Morgan, sgorio ei ail gôl o'r gêm, a Chymru 3-0 ar y blaen. Gyda chwarter awr o'r gêm yn weddill, sgoriodd Bobby McLuckie o glwb Hearts i'r Alban ac o fewn 3 munud roedd wedi rhwydo eto i ddod â'r gem i 3-2. Ond funudau cyn y diwedd, sgoriodd Freddie Issaka o glwb Plymouth Argyle i sicrhau buddugoliaeth o 4-2 i Gymru.


Iwan Morgan

Gwlad yr Iâ oedd y gwrthwynebwyr yn yr ail gêm ym Mharc y Ddraig, Casnewydd. Cychwyn cryf gan Gymru, gyda Luey Giles yn taro'r trawst. Ar ôl hanner awr, aeth y cochion ar y blaen gydag ergydiad o du allan i'r cwrt gan Alfie Tuck o glwb QPR. Ar ôl yr egwyl daeth Gwlad yr Iâ'n gyfartal: Daniel Ingi Johanesson yn rhwydo gyda pheniad isel. Roedd Cymru'n creu ond methu â chanfod cefn y rhwyd. Ac yn yr eiliadau olaf bu bron i Gymru ennill y gêm wrth i Joe Andrews daro'r trawst. Ond gêm gyfartal 1-1, a chydag un gêm yn weddill Cymru ar frig y Grŵp!

Felly, nôl ym Mharc y Ddraig ar gyfer y drydedd gêm, a Montenegro yn wrthwynebwyr. Buddugoliaeth i'r naill dîm neu'r llall a byddent yn hawlio lle yn y Rowndiau Terfynol. Tarodd Cymru'r trawst yn y drydedd gêm yn olynol wedi ergyd gan Luey Giles. Ond ar yr hanner, siom i Gymru! Arbedodd y golwr Kit Margetson ergyd gan Montenegro ond rhwydodd Vasilije Adzic ar yr ail gynnig i roi Montenegro ar y blaen. Eiliadau'n ddiweddarach roedd y tîm o'r Balkans wedi dyblu ei fantais wrth i Adzic rwydo ei ail. A Montenegro 2-0 ar y blaen ar yr egwyl.

Cychwynnodd yr ail hanner yn berffaith i Gymru wrth i ymosodwr Abertawe Iwan Morgan rwydo i'w gwneud hi'n 2-1. Wedi'r gôl, roedd Cymru'n curo ar y drws ond yn methu â chanfod cefn y rhwyd tan 5 munud cyn diwedd y gêm ac amddiffynnwr Caerdydd, Dylan Lawlor, yn rhwydo yn y cwrt chwech i'w gwneud hi'n gyfartal. Y gêm yn gorffen yn 2-2, a Chymru a Montenegro yn rhannu'r pwyntiau. Ac oherwydd y gêm gyfartal roedd rhaid disgwyl i wybod beth oedd y sgôr yng ngêm arall y Grŵp. Gyda'r gêm rhwng Yr Alban a Gwlad yr Iâ'n gyfartal, roedd Cymru wedi gorffen ar frig y Grŵp ac wedi sicrhau lle yn y Rowndiau Terfynol am y tro cyntaf erioed. Gwych oedd gweld y golygfeydd a'r dathlu gan gamerau Sgorio. Ond bechod nad oedd mwy na theulu a ffrindiau'r bechgyn yn cael bod yna i weld y foment hanesyddol.

Camp wych gan y tîm Dan 17eg i gyrraedd y Rowndiau Terfynol. Yng Ngrŵp A y bydd Cymru, yn wynebu'r tîm cartref Hwngari, Gwlad Pŵyl a Gweriniaeth Iwerddon. Bydd y gemau yn cael eu chwarae ganol mis Mai. Pob lwc iddynt draw yn Hwngari.

**Elgan Rhys Jones**

# Dal i redeg…

Daeth nifer o lwyddiannau i redwyr lleol yn ystod y mis diwethaf. Yn Ras 5k Llandudno, roedd Arwel Lewis, Bethel yn drydydd dros 60 oed. Ar yr un penwythnos, siomedig oedd nifer y rhai ddaeth i gystadlu yn Ras y Fron, sy'n cynnwys copaon Moel Tryfan a'r Mynydd Mawr. Efallai fod y mwyafrif yn parhau i ofni'r niwl ers yr wythnos cynt! Daeth Dyfed Thomas, Llanrug yn drydydd yn y ras, a'r rhedwr cyntaf dros 40 oed. Yn wythfed yn y ras roedd Jenny Heming, Llanberis a hi hefydd oedd y ferch gyntaf.

**Cyfres Rasys Mynydd Nos Fawrth**

Ar y nos Fawrth olaf ym mis Mawrth, bu'n rhaid gohirio ras gyntaf y gyfres yn Y Fron oherwydd niwl trwchus. Roedd trefnwyr y ras wedi bod allan yn gynnar yn marcio'r cwrs dros Foel Tryfan gyda baneri, ond erbyn diwedd y pnawn, a'r niwl wedi lapio'n dynn dros holl lethrau'r mynydd, doedd dim posib gweld o un faner i'r llall. Ond diolch i'r cyfryngau cymdeithasol, dim ond rhyw ddwsin o redwyr a deithiodd i'r Fron a chael siwrnai seithug. Er hynny, ac er y niwl, aeth rasys y plant yn eu blaen, gan nad oeddent yn herio'r mynydd ei hun, a digon o oedolion yn bresennol i'w tywys ar hyd y cwrs.

Ras Mynydd y Cilgwyn, eto o'r Fron, oedd ras gyntaf y gyfres felly, a daeth tua 120 o redwyr yno i herio cwrs newydd sbon. Daeth Arwel Lewis, Bethel yn drydydd dros 60 oed a Margaret Oliver, Dinorwig yn gyntaf dros 75 oed.

Cynhaliwyd Ras Foel Lus o Gapelulo, Penmaenmawr, ac oherwydd ei bod wedi ei dewis fel rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru eleni am y tro cyntaf erioed, roedd nifer fwy nac arfer wedi troi allan i gystadlu. Ond unwaith yn rhagor, y tywydd oedd yn fuddugol, a cael a chael oedd hi i gynnal y ras yn dilyn rhybudd melyn am wyntoedd eithriadol o gryf a glawogydd trwm iawn. Er hynny, mentrodd cant a deg o redwyr i herio'r amgylchiadau, a daeth Anwen Hockley o Lanberis yn gyntaf yn yr adran i ferched dan 19 oed.

Bydd Ras y Tair Dringfa, Penmaenmawr, a Ras Pen Dinas, Nant Peris eisoes wedi eu cynnal erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, ond ar yr 2il o Fai bydd Ras Y Garn yn cael ei chynnal, gyda'r cofrestru ar Faes Parcio'r Rheilffordd, Rhyd-ddu. Wythnos yn ddiweddarach bydd y gyfres yn hwylio'n ôl i'r Fron a Ras Mynydd Mawr. Yna, ar yr 16eg o Fai cynhelir Ras Moel y Gest, gan gofrestru yn Nhyddyn Llwyn, Borth y Gest. Ras arall newydd i'r gyfres fydd ar y 23ain o Fai, a hynny o Ysgol Nebo i gopa Mynydd Graig Goch ac yn ôl. Y pedair ras yn cychwyn am 7.15.

Cofiwch fod rasys plant ac ieuenctid yn cael eu cynnal ar yr un amser hefyd. Adroddiadau i ddilyn yn rhifyn nesaf yr *Eco*.







**GEIRFA ADAR YR ARDD - GARDEN BIRDS VOCABULARY**

| | | |
|---|---|---|
| Aderyn y To - House Sparrow | Jac y Do - Jackdaw | Nico - Goldfinch |
| Bronfraith - Song Thrush | Ji-binc - Chaffinch | Pila Gwyrdd - Siskin |
| Coch y Berllan - Bullfinch | Llinos Bengoch - Lesser Redpoll | Robin Goch - Robin |
| Delor y Cnau - Nuthatch | Llinos Werdd - Greenfinch | Sigldigwt - Pied Wagtail |
| Drudwen - Starling | Llwyd y Berth - Dunnock | Titw Tomos - Bluetit |
| Dryw - Wren | Mwyalchen - Blackbird | Turtur Dorchog - Collared Dove |

# Cychwyn Gwych i Ymgyrch Ewro 2024!



Mae ymgyrch Cymru i gyrraedd Ewro 2024 wedi dechrau. Ac am ddechrau gwych! Mae Cymru yng ngrŵp D gyda Croatia, Twrci, Armenia a Latfia. Byddai'n rhyfedd iawn gweld y tîm yn addasu yn dilyn ymddeoliad Gareth Bale, Joe Allen, Chris Gunter a Jonny Williams. Gydag Aaron Ramsey wedi ei enwi fel capten tîm Rob Page, galwyd ambell i enw newydd i'r garfan, gyda bechgyn fel Nathan Broadhead, Ollie Cooper, Jordan James a Luke Harris i gyd yn gobeithio ennill eu cap cyntaf i'r tîm. Roedd enwau fel Tom Bradshaw hefyd yn dychwelyd i'r garfan. Yn anffodus doedd Ben Davies a Brennan Johnson ddim ar gael oherwydd anafiadau: colled mawr i'r tîm.

Ein gêm gyntaf oedd Croatia yn Split. Gêm anodd iawn i gychwyn yr ymgyrch, ac o bosib y gêm anoddaf. Well ei chael allan o'r ffordd yn gyntaf? Gyda Croatia wedi gorffen yn drydydd yng Nghwpan y Byd y llynedd ac heb golli yn yr un o'r 35 o gemau grŵp Ewropeaidd diwethaf, Croatia oedd y ffefrynau amlwg. Doedd Cymru heb ennill gêm ers ennill yn erbyn Wcrain fis Mehefin 2022. Y gobaith cyn y gêm ymysg nifer o'r cefnogwyr (gan fy nghynnwys i) oedd i beidio  a cholli'n drwm!

Roedd awyrgylch anhygoel yn Split, chefnogwyr Croatia wedi llenwi'r stadiwm awr cyn y gic gyntaf. Roedd y cefnogwyr wedi troi fyny, ac roedd y tîm wedi troi fyny. Roedd Croatia wedi hawlio'r meddiant o'r gic gyntaf. Bu bron iddyn nhw sgorio o fewn y munudau cyntaf, gyda Danny Ward yn gorfod gwneud arbediad oddi wrth Modric. Yna daeth cynnig i Kramaric. Roedd hi'n glir sut oedd rhain wedi gorffen yn drydydd yng Nghwpan y Byd. Yr un stori oedd hi drwy'r hanner cyntaf, gyda Cymru'n ei chael hi'n anodd i gael unrhyw gyffyrddiad ar y bêl. Fe sgoriodd Perisic ar ôl hanner awr o chwarae, ond doedd hi ddim yn cyfrif: eiliad o ryddhad i Gymru felly. A dim ond eiliad oedd hi, oherwydd ychydig wedyn dyma Kramaric yn sgorio. Arweiniodd camgymeriad gan amddiffyn Cymru at gôl anochel gan Croatia. Oedd y llifddorau am agor nawr?

O ystyried yr holl gyfleoedd gafodd Croatia yn yr hanner cyntaf roedd hi'n rhyddhad i Gymru fynd mewn i'r ail hanner dim ond un gôl tu ôl. Daeth sawl cyfle eto i Croatia yn yr ail hanner ond doedden nhw ddim yn gallu taro'r targed. Rhyddhad i Gymru. Mi ddylai Cymru fod wedi unioni'r sgôr ar yr awr, gyda Daniel James yn methu cyfle euraidd. Roedd diwedd y gêm yn agosáu a chefnogwyr Cymru'n ddigon bodlon gyda cholli o un gôl i ddim. Daeth Modric i ffwrdd (chwaraewr gorau Croatia heb os). Ychydig eiliadau wedyn, yn ystod munudau olaf y gêm daeth arwr Cymru: Nathan Broadhead, y bachgen ifanc o o Fangor efo'i gap cyntaf i Gymru a'i gôl gyntaf i Gymru! Roedd Cymru wedi sgorio! Fe ddathlodd cefnogwyr Cymru fel tasen ni wedi ennill y gêm. Roedd gêm gyfartal yn Croatia oddi cartref yn teimlo fel buddugoliaeth. 1-1 oedd y sgôr terfynol. Cychwyn gwell na'r disgwyl felly i Gymru yn yr ymgyrch.

Ein gwrthwynebwyr nesaf oedd Latvia, a'r gêm yng Nghaerdydd. Roedd Cymru'n gobeithio adeiladu ar ganlyniad y penwythnos. Roedd hi'n bwysig iawn adeiladu ar y pwynt a hawlio tri phwynt yn erbyn Latfia. Cyn y gêm, daeth wyneb cyfarwydd ar y cae i ddiolch i'r cefnogwyr: Gareth Bale. Cafodd ei gymeradwyo'n ddi-baid ac roedd hi'n braf cael diolch iddo.

Fe gychwynnodd Cymru'r gêm yn dda, a bu bron i ni fynd ar y blaen o fewn 5 munud gyda chyfle gan Harry Wilson yn cael ei arbed gan gôl-geidwad Latfia. Yn debyg i Croatia yn y gêm flaenorol, roedd Cymru'n hawlio'r meddiant ond ddim yn gallu sgorio. Munudau cyn hanner amser, dyma Cymru'n mynd ar y blaen, diolch i Kieffer Moore, hogyn Llanrug. Roedd Cymru'n edrych i ychwanegu at y fantais o un gôl, ond methiant oedd hynny. Roedd Latfia'n dal i drio, a nerfau Cymru'n dechrau dangos. Diolch byth, fe orffennodd hi'n un i ddim i Gymru.

4 pwynt felly allan o 6 i Gymru ar ddechrau'r ymgyrch. Cychwyn gwych. Mae Cymru ar frîg Grŵp D ac yn gobeithio aros yn y safle hwnnw. Bydd ein gemau nesaf yn cael eu chwarae ym mis Mehefin: gartref yn erbyn Armenia ac yna oddi cartref yn erbyn Twrci. Gobeithio erbyn hynny y bydd Ben Davies a Brennan Johnson nôl yn y garfan ac na fydd yna anafiadau pellach.

**Mared Rhys Jones**

ISSN 2516-7235